



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2006 Rhif 1226 (Cy.117)**

**2006 No. 1226 (W.117)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**ANIMALS, WALES**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**ANIMAL HEALTH**

**Rheoliadau Enseffalopathïau  
Sbyngffurf Trosglwyddadwy  
(Cymru) 2006**

**The Transmissible Spongiform  
Encephalopathies (Wales)  
Regulations 2006**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn dirymu ac yn ail-wneud gyda diwygiadau Rheoliadau TSE (Cymru) 2002, a oedd yn gorfodi Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod rheolau i atal, rheoli a dileu rhai mathau o sbyngffurf trosglwyddadwy (OJ Rhif L 147, 31.5.2001, tud. 1) fel y'i diwygiwyd gan, ac fel y'i darllennir gyda, darpariaethau Atodlen 1 ("Rheoliad TSE y Gymuned").

These Regulations, which apply in relation to Wales, revoke and remake with amendments the TSE (Wales) Regulations 2002, which enforced Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council laying down rules for the prevention, control and eradication of certain transmissible spongiform encephalopathies (OJ No L 147, 31.5.2001, p 1) as amended by and as read with the provisions in Schedule 1 ("the Community TSE Regulation").

Nid yw darpariaethau iawndal rheoliadau TSE (Cymru) 2002 yn cael eu dirymu ac maent yn parhau mewn grym hyd nes bod darpariaethau iawndal newydd yn dod i rym i dalu iawndal am BSE mewn anuifeiliaid buchol a TSE mewn defaid a geifr

The compensation provisions of the TSE (Wales) Regulations 2002 are not revoked and remain in force until new compensation arrangements are brought into force to compensate for BSE in bovine animals and TSE in sheep and goats.

**Y Prif Reoliadau**

**The main Regulations**

Mae'r Rheoliadau yn darparu mai'r Cynulliad Cenedlaethol yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliad TSE y Gymuned (ac eithrio yn Atodlen 6, lle mai'r Asiantaeth Safonau Bwyd yw'r awdurdod cymwys) (rheoliad 3) ac yn darparu eithriad ar gyfer ymchwil (rheoliad 4).

The Regulations provide that the National Assembly is the competent authority for the purposes of the Community TSE Regulation (except in Schedule 6, where the competent authority is the Food Standards Agency) (regulation 3) and provide an exception for research (regulation 4).

Mae'r darpariaethau yn Rhan 2 yn cyflwyno'r Atodlenni.

The provisions in Part 2 introduce the Schedules.

Mae Rhan 3 yn ymwneud â gweinyddu a gorfodi.

Part 3 deals with administration and enforcement.

Mae Rheoliadau 10 i 14 yn ymwneud â chymeradwyo, awdurdodi, trwyddedu a chofrestru,

Regulations 10 to 14 deal with approvals, authorisations, licences and registrations, occupier's

dyletswyddau'r meddiannydd, atal, diwygio a dirymu cymeradwyaeth, etc., a gweithdrefn apelio. Mae Rheoliad 15 yn ymwneud â phrisio.

Mae Rheoliadau 16 i 18 yn rhoi pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r awdurdod lleol i benodi arolygwyr, ac i ddelio â phwerau mynediad a phwerau arolygwyr. Mae Rheoliad 19 yn darparu ar gyfer gweithdrefn hysbysu, ac mae rheoliad 20 yn darparu ar gyfer trwyddedau sy'n caniatáu symud yn ystod cyfnod cyfyngu ar symud.

Mae Rheoliadau 21 i 23 yn ymwneud â rhwystro arolygwr, cosbau, a throseddau gan gorff corfforaethol. Mae person sy'n euog o drosedd o dan y Rheoliadau hyn yn atebol-

- (a) ar gollfarn ddiannod, am ddirwy o ddim mwy na'r mwyafswm statudol neu garchar am dymor o dri mis neu'r ddau, neu
- (b) ar gollfarn ar dditment, am ddirwy neu garchar am dymor o ddim mwy na dwy flynedd neu'r ddau.

Mae Rheoliadau 24 yn delio â gorfodi.

Mae Rheoliad 25 yn delio â diwygiadau i Reoliadau TSE (Cymru) 2002, ac mae Rheoliad 26 yn delio â dirymiadau.

### **Atodlen 1**

Mae Atodlen 1 yn rhestru darpariaethau sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 a rhaid darllen y Rheoliad gyda'r Atodlen.

### **Atodlen 2**

Mae Atodlen 2 yn ymwneud â monitro ar gyfer TSE. Mae paragraff 1 yn darparu ar gyfer hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol am stoc trig sydd raid eu profi am TSE o dan y Rheoliad TSE y Gymuned. Mae paragraff 2 yn ei gwneud hi'n drosedd i draddodi anifail sydd dros yr oedran i ladd-dy i'w fwyta gan bobl, ac i gigydda anifail o'r fath i'w fwyta gan bobl. Mae paragraff 3 yn darparu ar gyfer samplu coesyn yr ymennydd mewn gwartheg penodedig.

Mae paragraff 4 yn creu gofyniad i unrhyw un sy'n cigyddu anifeiliaid dros 30 mis oed ar gyfer eu bwyta gan bobl i gael Dull Gofynnol o Weithredu.

Mae paragraff 5 yn darparu ar gyfer cadw cynhyrchion a'u gwaredu, ac mae paragraff 6 yn ymwneud ag iawndal.

Mae paragraffau 7 i 14 yn nodi'r gofynion sylfaenol sydd raid eu cynnwys mewn Dull Gofynnol o Weithredu.

duties, suspension, amendment and revocations of approvals, etc., and an appeals procedure. Regulation 15 deals with valuations.

Regulations 16 to 18 give powers to the National Assembly and the local authority to appoint inspectors, and deal with powers of entry and powers of inspectors. Regulation 19 provides for a notice procedure, and regulation 20 provides for licences permitting movement during a movement restriction.

Regulations 21 to 23 deal with obstruction of an inspector, penalties, and offences by a body corporate. A person guilty of an offence under these Regulations is liable-

- (a) on summary conviction, to a fine not exceeding the statutory maximum or to imprisonment for a term of three months or both, or
- (b) on conviction on indictment, to a fine or to imprisonment for a term not exceeding two years or both.

Regulation 24 deals with enforcement. Regulation 25 deals with amendments to the TSE (Wales) Regulations 2002 and Regulation 26 deals with revocations.

### **Schedule 1**

Schedule 1 lists provisions that amend Regulation (EC) No 999/2001 and with which it must be read.

### **Schedule 2**

Schedule 2 deals with monitoring for TSEs. Paragraph 1 provides for notification to the National Assembly of fallen stock that must be tested for TSE under the Community TSE Regulation. Paragraph 2 makes it an offence to consign an over-age animal to a slaughterhouse for human consumption, and to slaughter such an animal for human consumption. Paragraph 3 provides for brain stem sampling of specified bovine animals.

Paragraph 4 creates a requirement for anyone slaughtering animals over 30 months old for human consumption to have a Required Method of Operation.

Paragraph 5 provides for retention of products and their disposal, and paragraph 6 deals with compensation.

Paragraphs 7 to 14 specify the minimum requirements that must appear in a Required Method of Operation.

### **Atodlen 3**

Mae Atodlen 3 yn ymwneud â rheoli a dileu TSE mewn gwartheg. Mae paragraff 1 yn darparu ar gyfer hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol am anifail dan amheuaeth. Mae paragraffau 2 a 3 yn darparu ar gyfer cyfyngu ar a chigydda'r anifail sydd dan amheuaeth. Mae paragraffau 4 a 5 yn ymwneud ag epil a chohortau'r anifail sydd dan amheuaeth. Mae paragraff 6 yn ymwneud ag iawndal am anifail sy'n marw o dan gyfyngiadau, ac mae paragraff 7 yn ymwneud â rhoi anifail ar y farchnad.

### **Atodlen 4**

Mae Atodlen 4 yn ymwneud â rheoli a dileu TSE mewn defaid a geifr. Mae paragraff 1 yn darparu ar gyfer hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol am anifail sydd dan amheuaeth. Mae paragraffau 2 a 3 yn darparu ar gyfer cyfyngu a chigydda'r anifail sydd dan amheuaeth. Mae paragraffau 4 a 5 yn ymwneud â chyfyngiadau symud. Mae paragraffau 6 i 8 yn darparu ar gyfer gweithredu yn dilyn cadarnhad. Mae paragraff 9 yn darparu ar gyfer amser i apelio, ac mae paragraff 10 yn darparu ar gyfer lladd a dinistrio. Mae paragraffau 11 i 13 yn ymwneud ag anifeiliaid heintiedig o ddaliad arall, pori cyffredin ac aml-ddiadellau ar ddaliad. Mae paragraff 14 yn ymwneud â meddianwyr dilynol y tir.

Mae paragraffau 15 i 21 yn nodi'r weithdrefn sydd i'w dilyn ar ôl lladd neu ddinistrio'r anifeiliaid. Mae paragraff 15 yn cyfyngu ar gyflwyno anifeiliaid i ddaliad. Mae paragraff 16 yn rheoleiddio'r defnydd o gynnyrch cenhedlol defaid, ac mae paragraff 17 yn cyfyngu ar symud anifeiliaid o ddaliad.

Mae paragraff 18 yn nodi pa bryd mae'r amser sy'n ymwneud â chyfyngiadau yn dechrau. Mae paragraff 19 yn darparu ar gyfer hysbysu am anifeiliaid sy'n marw tra eu bod dan gyfyngiadau. Mae paragraff 20 yn ymwneud â rhoi epil ar y farchnad, ac mae paragraff 21 yn ei gwneud hi'n ofynnol i hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol cyn gall y perchennog draddodi defaid dros 18 mis ar gyfer eu cigydda.

Mae paragraff 22 yn ymwneud â rhanddirymiaidau o'r gofyniad i ladd a dinistrio defaid a geifr.

### **Atodlen 5**

Mae Atodlen 5 yn ymwneud â bwydydd anifeiliaid. Mae paragraffau 1 i 3 yn gwahardd bwydo bwydydd penodedig i anifeiliaid cnoi cil ac anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil, ac yn darparu ar gyfer eithriadau. Mae paragraffau 4 a 5 yn darparu ar gyfer cyfyngiadau symud a chigydda anifeiliaid sydd dan amheuaeth o fod wedi cael eu bwydo gyda bwydydd gwaharddedig, ac mae paragraff 6 yn darparu ar gyfer iawndal. Mae paragraff 7 yn gwahardd anifeiliaid dan gyfyngiadau rhag cael eu cigydda i'w bwyta gan bobl.

### **Schedule 3**

Schedule 3 deals with control and eradication of TSEs in bovine animals. Paragraph 1 provides for notification of a suspect animal to the National Assembly. Paragraphs 2 and 3 provide for the restriction and slaughter of the suspect. Paragraphs 4 and 5 deal with the offspring and cohorts of the suspect. Paragraph 6 deals with death whilst under restriction, and paragraph 7 deals with placing on the market.

### **Schedule 4**

Schedule 4 deals with control and eradication of TSEs in sheep and goats. Paragraph 1 provides for notification of a suspect animal to the National Assembly. Paragraphs 2 and 3 provide for the restriction and slaughter of the suspect. Paragraphs 4 and 5 deal with movement restrictions. Paragraphs 6 to 8 provide for action following confirmation. Paragraph 9 provides for time for appeals, and paragraph 10 provides for killing and destruction. Paragraphs 11 to 13 deal with infected animals from another holding, common grazing and multiple flocks on a holding. Paragraph 14 deals with subsequent occupiers of the land.

Paragraphs 15 to 21 set out the procedure to be followed after the killing or destruction. Paragraph 15 restricts the introduction of animals on to a holding. Paragraph 16 regulates the use of ovine germinal products, and paragraph 17 restricts the movement of animals from a holding.

Paragraph 18 specifies when the time relating to restrictions begins. Paragraph 19 provides for notification of animals that die while under restriction. Paragraph 20 deals with placing on the market of progeny, and paragraph 21 requires notification to the National Assembly before the owner may consign sheep aged over 18 months for slaughter.

Paragraph 22 deals with derogations from the requirement for the killing and destruction of sheep and goats.

### **Schedule 5**

Schedule 5 deals with feedingstuffs. Paragraphs 1 to 3 prohibit feeding specified feedingstuffs to ruminant and non-ruminant animals, and provide for exceptions. Paragraphs 4 and 5 provide for movement restrictions and slaughter of animals suspected of having been fed prohibited feedingstuffs, and paragraph 6 provides for compensation. Paragraph 7 prohibits the slaughter for human consumption of restricted animals.

Mae paragraffau 8 a 9 yn rheoleiddio cynhyrchu a defnyddio blawd pysgod i'w fwydo i anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil. Mae paragraffau 10 a 11 yn rheoleiddio bwydydd anifeiliaid sy'n cynnwys ffosffad deucalsiwm neu ffosffad tricalsiwm. Mae paragraffau 12 a 13 yn rheoleiddio bwydydd anifeiliaid sy'n cynnwys cynnyrch gwaed a blawd gwaed.

Mae paragraff 14 yn darparu ar gyfer newidiadau o ran defnyddio cyfarpar. Mae paragraffau 15 a 16 yn rheoli gweithgynhyrchu, storio a chludo protein anifeiliaid wedi'i brosesu a chynhyrchion sy'n ei gynnwys. Mae paragraff 17 yn rheoli allforio, ac mae paragraff 18 yn rheoleiddio gwrtaith sy'n deillio o brotein anifeiliaid. Mae paragraff 19 yn ymwneud â chofnodion, ac mae paragraff 20 yn ymwneud â thrawshalogi.

## Atodlen 6

Mae Atodlen 6 yn ymwneud â deunydd risg penodedig, cig sydd wedi'i adennill trwy ddulliau mecanyddol a dulliau cigydda. Mae paragraff 1 yn penodi'r Asiantaeth Safonau Bwyd fel yr awdurdod cymwys ar gyfer yr Atodlen hon. Mae paragraff 2 yn gosod dyletswyddau penodol ar awdurdodau lleol mewn perthynas â siopau cig. Mae paragraff 3 yn darparu ar gyfer hyfforddi staff lladd-dai, safleoedd torri a staff siopau cig.

Mae paragraff 4 yn ymwneud â chig sydd wedi'i adennill trwy ddulliau mecanyddol, mae paragraff 5 yn ymwneud â phithio, mae paragraff 6 yn ymwneud â chynaeafu tafodau, ac mae paragraff 7 yn ymwneud â chynaeafu cig y pen.

Mae paragraff 8 yn rheoli tynnu deunydd risg penodedig, ac mae paragraffau 9 a 10 yn ymwneud â gwartheg a defaid a geifr mewn lladd-dy.

Mae paragraff 11 yn ymwneud â stampiau wyn a geifr ifanc.

Mae paragraff 12 yn ymwneud â thynnu llinyn asgwrn y cefn mewn defaid a geifr.

Mae paragraff 13 yn darparu ar gyfer awdurdodi safleoedd torri, ac mae paragraff 15 yn rheoli tynnu deunydd risg penodedig mewn safleoedd torri.

Mae paragraff 16 yn ymwneud â thynnu llinyn asgwrn y cefn sydd yn ddeunydd risg penodedig mewn safleoedd torri nad sydd wedi eu hawdurdodi o dan baragraff 13.

Mae paragraff 14 yn ymwneud ag awdurdodi a chofrestru siopau cig, ac mae paragraff 17 yn rheoli tynnu deunydd risg penodedig mewn siopau o'r fath.

Mae paragraff 18 yn ymwneud â chig o aelod wladwriaethau eraill.

Paragraphs 8 and 9 regulate the production and use of fishmeal for feeding to non-ruminant animals. Paragraphs 10 and 11 regulate feedingstuffs containing dicalcium phosphate or tricalcium phosphate. Paragraphs 12 and 13 regulate feedingstuffs containing blood products and blood meal.

Paragraph 14 makes provision for changes in use of equipment. Paragraphs 15 and 16 control the manufacture, storage and transport of processed animal protein and products containing it. Paragraph 17 controls exports, and paragraph 18 regulates fertilisers derived from animal protein. Paragraph 19 deals with records, and paragraph 20 deals with cross-contamination.

## Schedule 6

Schedule 6 deals with specified risk material, mechanically recovered meat and slaughtering techniques. Paragraph 1 appoints the Food Standards Agency as the competent authority for this Schedule. Paragraph 2 imposes certain duties on local authorities in relation to butcher shops. Paragraph 3 makes provision for training of slaughterhouse, cutting plant and butcher shop staff.

Paragraph 4 deals with mechanically recovered meat, paragraph 5 with pithing and paragraph 6 with tongue harvesting and paragraph 7 with head meat harvesting.

Paragraph 8 controls the removal of specified risk material, and paragraphs 9 and 10 deal with bovine animals and sheep and goats at a slaughterhouse.

Paragraph 11 deals with young lamb and goat stamps.

Paragraph 12 deals with the removal of spinal cord from sheep and goats.

Paragraph 13 provides for the authorisation of cutting plants, and paragraph 15 controls the removal of specified risk material at a cutting plant.

Paragraph 16 provides for removal of vertebral column that is specified risk material at cutting plants not authorised under paragraph 13.

Paragraph 14 provides for the authorisation and registration of butcher shops, and paragraph 17 controls the removal of specified material at such shops.

Paragraph 18 deals with meat from other member States.

Mae paragraffau 19 ac 20 yn ei gwneud hi'n ofynnol i staenio deunydd risg penodedig, ac mae paragraff 21 yn darparu ar gyfer diogelwch deunydd risg penodedig.

Mae paragraff 22 yn gwahardd cyflenwi deunydd risg penodedig i'w fwyta gan bobl.

#### **Atodlen 7**

Mae Atodlen 7 yn ymwneud â danfon anifeiliaid buchol byw a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt i aelod Wladwriaethau eraill ac i drydydd gwledydd.

#### **Atodlen 8**

Mae Atodlen 8 yn dirymu Rheoliadau.

Mae arfarniad rheoliadol wedi cael ei baratoi a'i roi yn llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol. Gellir cael copïau oddi wrth Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Paragraphs 19 and 20 require the staining of specified risk material, and paragraph 21 provides for the security of specified risk material.

Paragraph 22 prohibits the supply of specified risk material for human consumption.

#### **Schedule 7**

Schedule 7 deals with dispatch of live bovine animals and products derived from them to other member States and to third countries.

#### **Schedule 8**

Schedule 8 deals with revocations

A regulatory appraisal has been prepared and placed in the library of the National Assembly. Copies can be obtained from the Department for Environment Planning and Countryside, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

**2006 Rhif 1226 (Cy.117)**

**2006 No. 1226 (W.117)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**ANIMALS, WALES**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**ANIMAL HEALTH**

**Rheoliadau Enseffalopathïau  
Sbyngffurf Trosglwyddadwy  
(Cymru) 2006**

**The Transmissible Spongiform  
Encephalopathies (Wales)  
Regulations 2006**

*Wedi'u gwneud* 2 Mai 2006  
*Yn dod i rym* 3 Mai 2006

*Made* 2 May 2006  
*Coming into force* 3 May 2006

**CYNNWYS**

**CONTENTS**

**RHAN 1**

**PART 1**

Darpariaethau cyffredinol

General provisions

1. Enwi, cymhwyso a chychwyn
2. Dehongli
3. Penodi awdurdod cymwys
4. Eithriad ar gyfer ymchwil

1. Title, application and commencement
2. Interpretation
3. Appointment of competent authority
4. Exception for research

**RHAN 2**

**PART 2**

Cyflwyno Atodlenni

Introduction of Schedules

5. Monitro TSE
6. Rheoli a dileu TSE mewn gwartheg
7. Rheoli a dileu TSE mewn defaid a geifr
8. Bwydydd anifeiliaid
9. Deunydd risg penodedig, cig sydd wedi ei adennill trwy ddulliau mecanyddol a dulliau cigydda

5. TSE monitoring
6. Control and eradication of TSE in bovine animals
7. Control and eradication of TSE in sheep and goats
8. Feedingstuffs
9. Specified risk material, mechanically recovered meat and slaughtering techniques

## RHAN 3

## PART 3

## Gweinyddu a gorfodi

## Administration and enforcement

- |   |   |
|---|---|
| 10. Cymeradwyo, awdurdodi, trwyddedu a chofrestru | 10. Approvals, authorisations, licences and registrations |
| 11. Dyletswydd meddiannydd                        | 11. Occupier's duty                                       |
| 12. Atal a diwygio                                | 12. Suspension and amendment                              |
| 13. Dirymu cymeradwyaeth, etc.                    | 13. Revocations of approvals, etc.                        |
| 14. Y weithdrefn apelio                           | 14. Appeals procedure                                     |
| 15. Prisio  | 15. Valuations  |
| 16. Penodi arolygwyr                              | 16. Appointment of inspectors                             |
| 17. Pwerau mynediad                               | 17. Powers of entry                                       |
| 18. Pwerau arolygwyr                              | 18. Powers of inspectors                                  |
| 19. Hysbysiadau                                   | 19. Notices   |
| 20. Hysbysiadau cyfyngu ar symud                  | 20. Notices restricting movement                          |
| 21. Rhwystro                                      | 21. Obstruction   |
| 22. Cosbau  | 22. Penalties   |
| 23. Troseddau gan gyrff corfforaethol             | 23. Offences by bodies corporate                          |
| 24. Gorfodi                                       | 24. Enforcement   |
| 25. Diwygiad i Reoliadau TSE (Cymru) 2002         | 25. Amendment of the TSE (Wales) Regulations 2002         |
| 26. Dirymu  | 26. Revocations   |

- |           |   |  |            |   |   |
|-----------|---|--|------------|---|---|
| ATODLEN 1 | - | Offerynnau sy'n berthnasol i Reoliad TSE y Gymuned | SCHEDULE 1 | - | Instruments relevant to Community TSE Regulation  |
| ATODLEN 2 | - | Monitro TSE  | SCHEDULE 2 | - | TSE monitoring                                    |
| RHAN 1    | - | Monitro ar gyfer TSE                               | PART 1     | - | Monitoring for TSE                                |
| RHAN 2    | - | Cynnwys Dulliau Gofynnol o Weithredu (RMOP)        | PART 2     | - | Contents of an RMOP                               |
| ATODLEN 3 | - | Rheoli a dileu TSE mewn gwartheg                   | SCHEDULE 3 | - | Control and eradication of TSE in bovine animals  |
| ATODLEN 4 | - | Rheoli a dileu TSE mewn defaid a geifr             | SCHEDULE 4 | - | Control and eradication of TSE in sheep and goats |
| ATODLEN 5 | - | Bwydydd anifeiliaid                                | SCHEDULE 5 | - | Feedingstuffs                                     |
| RHAN 1    | - | Cyfyngu ar fwydo protein i anifeiliaid             | PART 1     | - | Restrictions on feeding proteins to animals       |
| RHAN 2    | - | Cynhyrchu protein a bwydydd anifeiliaid            | PART 2     | - | Production of protein and feedingstuffs           |

ATODLEN 6 - Deunydd risg penodedig, cig sydd wedi ei adennill trwy ddulliau mecanyddol a dulliau cigyddda

ATODLEN 7 - Cyfyngiadau ar ddanfon i Aelod waldwriaethau eraill ac i drydydd gwledydd

ATODLEN 8 - Dirymiadau

SCHEDULE 6 - Specified risk material, mechanically recovered meat and slaughtering techniques

SCHEDULE 7 - Restrictions on dispatch to other member States and to third countries

SCHEDULE 8 - Revocations

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud y Rheoliadau canlynol o dan y pwerau a roddwyd gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1).

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cael ei ddynodi(2) at ddibenion yr adran honno mewn perthynas â mesurau ym meysydd milfeddygol ar gyfer diogelu iechyd y cyhoedd.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cynnal yr ymgynghori sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 o Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu'r Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau mewn perthynas â diogelwch bwyd(3).

The National Assembly makes the following Regulations under the powers conferred by section 2(2) of the European Communities Act 1972(1).

The National Assembly has been designated(2) for the purposes of that section in relation to measures in the veterinary field for the protection of public health.

The National Assembly has carried out the consultation required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(3).

## RHAN 1

### Darpariaethau cyffredinol

#### Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Yr enw ar y Rheoliadau hyn fydd Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006, maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 3 Mai 2006.

#### Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "anifail buchol" ("*bovine animal*") yw gwartheg yn cynnwys buail a byfflo (gan gynnwys byfflos dwr);

## PART 1

### General provisions

#### Title, application and commencement

1. The title of these Regulations is the Transmissible Spongiform Encephalopathies (Wales) Regulations 2006, they apply in relation to Wales and come into force on 3 May 2006.

#### Interpretation

2.-(1) In these Regulations-

"bovine animal" ("*anifail buchol*") includes bison and buffalo (including water buffalo);

(1) 1972 c.68.

(2) O.S. 2003/1246.

(3) OJ Rhif. L 31, 1.2.2002, tud.1, fel y'i diwygwyd ddiwethaf gan reoliad (EC) Rhif. 1642/2003 (OJ Rhif. L 245, 29.9.2003, tud. 4).

(1) 1972 c.68.

(2) S.I. 2003/1246.

(3) OJ No. L 31, 1.2.2002, p.1, as last amended by Regulation (EC) No. 1642/2003 (OJ No. L 245, 29.9.2003, p. 4).



ystyr "arolygydd" ("*inspector*") yw arolygydd a benodwyd o dan reoliad 16, ac ystyr "arolygydd milfeddygol" ("*veterinary inspector*") yw milfeddyg a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol yn arolygydd;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor unrhyw sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "BSE" ("*BSE*") yw enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

mae gan "pasbort gwartheg" ("*cattle passport*") yr un ystyr ag sydd yn Rheoliadau Adnabod Gwartheg 1998(1);

ystyr "lladd-dy" ("*slaughterhouse*") a (ac eithrio yn Atodlen 6, paragraff 10(2)(c)) "safle torri" ("*cutting plant*") yw adeilad-

- (a) sydd wedi'i gymeradwyo neu ei gymeradwyo'n amodol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd o dan Erthygl 31(2) o Reoliad (EC) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â rheolau swyddogol a wnaed i sicrhau bod cydymffurfio gyda chyfraith bwydydd a bwyd, rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid yn cael ei ddilysu(2); neu
- (b) sy'n gweithredu fel y cyfryw o dan Erthygl 4(5) o Reoliad (EC) Rhif 853/2004 o Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy'n dod o anifeiliaid(3) hyd nes y ceir cymeradwyaeth o'r fath;

ystyr "Rheoliad TSE y Gymuned" ("*Community TSE Regulation*") yw Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu rhai mathau o enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy(4), fel y'i diwygiwyd gan, ac fel y'i darllenwyd gyda'r offerynnau sydd wedi eu nodi yn Atodlen 1; ac

ystyr "TSE" ("*TSE*") yw ensepalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy.

(2) Mae gan ymadroddion nad ydynt wedi eu diffinio yn y Rheoliadau hyn ac sydd yn ymddangos yn Rheoliad TSE y Gymuned yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag sydd ganddynt at ddibenion Rheoliad TSE y Gymuned.

"BSE" ("*BSE*") means bovine spongiform encephalopathy;

"cattle passport" ("*pasbort gwartheg*") has the same meaning as in the Cattle Identification Regulations 1998(1);

"Community TSE Regulation" ("*Rheoliad TSE y Gymuned*") means Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council laying down rules for the prevention, control and eradication of certain transmissible spongiform encephalopathies(2), as amended by, and as read with the instruments set out in Schedule 1;

"inspector" ("*arolygydd*") means an inspector appointed under regulation 16, and "veterinary inspector" means a veterinary surgeon appointed by the National Assembly as an inspector;

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means the council of any county or county borough in Wales;

"National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"slaughterhouse" ("*lladd-dy*") and (except in Schedule 6, paragraph 10(2)(c)) "cutting plant" ("*safle torri*") mean premises-

- (a) approved or conditionally approved as such by the Food Standards Agency under Article 31(2) of Regulation (EC) No 882/2004 of the European Parliament and of the Council on official controls performed to ensure the verification of compliance with feed and food law, animal health and animal welfare rules(3); or
- (b) operating as such under Article 4(5) of Regulation (EC) No 853/2004 of the European Parliament and of the Council laying down specific hygiene rules for food of animal origin(4) pending such approval; and

"TSE" ("*TSE*") means transmissible spongiform encephalopathy.

(2) Expressions that are not defined in these Regulations and occur in the Community TSE Regulation have the same meaning in these Regulations as they have for the purposes of the Community TSE Regulation.

(1) O.S.I. 1998/871, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/2969 ac O.S. 1999/1339.

(2) OJ Rhif L 165, 30.04.2004, tud.1. Ceir testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 882/2004 bellach mewn Corrigendwm (OJ Rhif L191, 28.5.2004, t.1).

(3) OJ Rhif L 139, 30.04.2004, tud.55. Mae testun diwygiedig Rheoliad (EC) Rhif 853/2004 yn nawr yn cael ei osod allan mewn Cywiriad (OJ. Rhif L226, 25.6.2004, tud.22).

(4) OJ Rhif. L 147, 31.5.2001, tud. 1.

(1) S.I. 1998/871, as amended by S.I. 1998/2969 and S.I. 1999/1339.

(2) OJ No. L 147, 31.5.2001, p. 1.

(3) OJ No. L 165, 30.04.2004, p.1. The revised text of Regulation (EC) No.882/2004 is now set out in a Corrigendum (OJ No L191, 28.5.2004, p.1).

(4) OJ No. L 139, 30.04.2004, p. 55. The revised text of Regulation (EC) No. 853/2004 is now set out in a Corrigendum (OJ. No. L226, 25.6.2004, p.22).

## Penodi awdurdod cymwys

3. Y Cynulliad Cenedlaethol yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliad TSE y Gymuned ac eithrio pan nodir yn wahanol yn y Rheoliadau hyn.

## Eithriadau ar gyfer ymchwil

4.-(1) Nid yw'r darpariaethau yn Atodlenni 2 i 6 yn gymwys o ran anifeiliaid a gedwir at ddibenion ymchwil mewn safleoedd sydd wedi'u cymeradwyo at y pwrpas hwnnw o dan y rheoliad hwn gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Os bydd buwch, dafad neu afr a gedwir mewn safle ymchwil sydd wedi'i gymeradwyo neu os bydd ei epil yn marw neu'n cael ei ladd, rhaid i'r meddiannydd ei waredu fel sgil-gynnyrch anifeiliaid Categori 1 yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 o Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd am sgil-gynnyrchion anifeiliaid nad ydynt wedi eu bwriadu i'w bwyta gan bobl(1), ac mae peidio â gwneud hyn yn drosedd.

## RHAN 2

### Cyflwyno Atodlenni

#### Monitro TSE

5. Mae Atodlen 2 (monitro TSE) yn effeithiol.

#### Rheoli a dileu TSE mewn gwartheg

6. Mae Atodlen 3 (rheoli a dileu TSE mewn gwartheg) yn effeithiol.

#### Rheoli a dileu TSE mewn defaid a geifr

7. Mae Atodlen 4 (rheoli a dileu TSE mewn defaid a geifr) yn effeithiol.

#### Bwydydd anifeiliaid

8. Mae Atodlen 5 (bwydydd anifeiliaid) yn effeithiol.

#### Deunydd risg penodedig, cig sydd wedi ei adennill trwy ddulliau mecanyddol a dulliau cigydda a chyfyngiadau ar anfon i Aelod-wladwriaethau eraill ac i drydydd gwledydd.

9. Mae Atodlen 6 (deunydd risg penodedig, cig sydd wedi ei adennill trwy ddulliau mecanyddol a dulliau cigydda) ac Atodlen 7 (cyfyngiadau ar anfon i Aelod-wladwriaethau eraill ac i drydydd gwledydd) yn effeithiol.

## Appointment of competent authority

3. The National Assembly is the competent authority for the purposes of the Community TSE Regulation except as otherwise specified in these Regulations.

## Exception for research

4.-(1) The provisions of Schedules 2 to 6 do not apply in relation to animals kept for the purposes of research in premises approved for that purpose under this regulation by the National Assembly.

(2) If a bovine animal, sheep or goat kept in approved research premises or its progeny dies or is killed, the occupier must dispose of it as a Category 1 animal by-product in accordance with Regulation (EC) No 1774/2002 of the European Parliament and of the Council laying down health rules concerning animal by-products not intended for human consumption(1), and failure to do so is an offence.

## PART 2

### Introduction of Schedules

#### TSE monitoring

5. Schedule 2 (TSE monitoring) has effect

#### Control and eradication of TSE in bovine animals

6. Schedule 3 (control and eradication of TSE in bovine animals) has effect.

#### Control and eradication of TSE in sheep and goats

7. Schedule 4 (control and eradication of TSE in sheep and goats) has effect.

#### Feedingstuffs

8. Schedule 5 (feedingstuffs) has effect

#### Specified risk material, mechanically recovered meat and slaughtering techniques and restrictions on dispatch to other member states and to third countries

9. Schedule 6 (specified risk material, mechanically recovered meat slaughtering techniques) and Schedule 7 (restrictions on dispatch to other member states and to third countries) have effect.

(1) OJ Rhif L273, 10.2.2002, tud. 1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 93/2005, OJ Rhif L19, 21.1.2005, tud. 34.

(1) OJ No. L273, 10.2.2002, p. 1 as last amended by Commission Regulation (EC) No. 93/2005, OJ No. L19, 21.1.2005, p. 34.

### RHAN 3

Gweinyddu a gorfodi

#### Cymeradwyo, awdurdodi, trwyddedu a chofrestru

**10.**-(1) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi cymeradwyaeth, awdurdod, trwydded neu gofrestriad o dan y Rheoliadau hyn os yw'n fodlon y cydymffurfir â darpariaethau Rheoliad TSE y Gymuned a'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i hyn fod yn ysgrifenedig, a rhaid nodi-

- (a) cyfeiriad y safle;
- (b) enw'r meddiannydd; a'r
- (c) diben y mae'n cael ei ganiatáu ar ei gyfer.

(3) Gall fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau sydd eu hangen er mwyn-

- (a) sicrhau y cydymffurfir â darpariaethau Rheoliad TSE y Gymuned a'r Rheoliadau hyn; neu
- (b) amddiffyn iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid.

(4) Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gwrthod rhoi cymeradwyaeth, awdurdod, trwydded neu gofrestriad, neu'n rhoi un ohonynt yn ddarostyngedig i amodau, mae'n rhaid iddo-

- (a) roi ei resymau mewn ysgrifen; ac
- (b) egluro hawl yr ymgeisydd i wneud sylwadau ysgrifenedig i berson a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(5) Yna mae'r weithdrefn apelio yn rheoliad 14 yn gymwys.

#### Dyletswydd y meddiannydd

**11.** Mae meddiannydd unrhyw safle sydd wedi cael cymeradwyaeth, caniatâd, trwydded neu gofrestriad o dan y Rheoliadau hyn yn troseddu os nad yw ef neu hi yn sicrhau bod-

- (a) y safleoedd yn cael eu cynnal a'u cadw a'u gweithredu yn unol ag-
  - (i) unrhyw amod o'r cymeradwyaeth, awdurdod, trwydded neu gofrestriad; a
  - (ii) gofynion Rheoliad TSE y Gymuned a'r Rheoliadau hyn; a
- (b) bod unrhyw berson a gyflogir ganddo ef neu hi, ac unrhyw berson yr awdurdodir iddo neu iddi fynd mewn i'r safle, yn cydymffurfio â'r amodau a'r gofynion hynny.

### PART 3

Administration and enforcement

#### Approvals, authorisations, licences and registrations

**10.**-(1) The National Assembly must grant an approval, authorisation, licence or registration under these Regulations if it is satisfied that the provisions of the Community TSE Regulation and these Regulations will be complied with.

(2) It must be in writing, and must specify-

- (a) the address of the premises;
- (b) the name of the occupier; and
- (c) the purpose for which it is granted.

(3) It may be made subject to such conditions as are necessary to-

- (a) ensure that the provisions of the Community TSE Regulation and these Regulations will be complied with; or
- (b) protect public or animal health.

(4) If the National Assembly refuses to grant an approval, authorisation, licence or registration, or grants one subject to conditions, it must-

- (a) give its reasons in writing; and
- (b) explain the right of the applicant to make written representations to a person appointed by the National Assembly.

(5) The appeals procedure in regulation 14 then applies.

#### Occupier's duty

**11.** The occupier of any premises approved, authorised, licensed or registered under these Regulations commits an offence if he or she does not ensure that-

- (a) the premises are maintained and operated in accordance with-
  - (i) any condition of the approval, authorisation, licence or registration; and
  - (ii) the requirements of the Community TSE Regulation and these Regulations; and
- (b) any person employed by him or her, and any person permitted to enter the premises, complies with those conditions and requirements.

## Atal a diwygio

12.-(1) Gall y Cynulliad Cenedlaethol atal neu ddiwygio'r gymeradwyaeth, awdurdod, trwydded neu gofrestrriad a roddwyd o dan y Rheoliadau hyn os-

- (a) bydd unrhyw un o'r amodau a roddwyd heb eu cyflawni; neu
- (b) os yw wedi'i fodloni nas cydymffurfir â darpariaethau Rheoliad TSE y Gymuned neu ddarpariaethau'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i atal neu ddiwygiad-

- (a) fod yn effeithiol ar unwaith os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried fod hynny yn angenrheidiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid; ac
- (b) fel arall ni fydd yn effeithiol am o leiaf 21 diwrnod.

(3) Rhaid i hysbysiad am atal neu ddiwygio-

- (a) fod mewn ysgriflen;
- (b) nodi pryd y daw yn effeithiol;
- (c) rhoi'r rhesymau; ac
- (ch) egluro hawl y person sydd wedi'i hysbysu i wneud sylwadau ysgrifenedig i berson a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(4) Yna mae'r weithdrefn apelio yn rheoliad 14 yn gymwys.

(5) Os na fydd yr atal neu'r diwygio yn effeithiol ar unwaith ac y gwneir sylwadau o dan reoliad 14, ni chaiff fod yn effeithiol tan benderfyniad terfynol y Cynulliad Cenedlaethol oni bai fod y Cynulliad yn ystyried bod rhaid i'r atal neu'r diwygio fod yn effeithiol cyn hynny er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd neu iechyd anifeiliaid.

## Dirymu caniatâd, etc.

13.-(1) Gall y Cynulliad Cenedlaethol ddirymu cymeradwyaeth, awdurdod, trwydded neu gofrestrriad a roddwyd o dan y Rheoliadau hyn os yw wedi'i fodloni na fydd y safle yn cael ei redeg yn unol â Rheoliad TSE y Gymuned neu'r Rheoliadau hyn ac os yw-

- (a) wedi'i atal ar hyn o bryd a bod y cyfnod ar gyfer apelio o dan reoliad 14 wedi dod i ben neu bod yr ataliad wedi cael ei gadarnhau yn dilyn apêl o'r fath;
- (b) wedi'i atal yn flaenorol ac y bu anghydfurfio pellach gyda Rheoliad TSE y Gymuned neu'r Rheoliadau hyn; neu
- (c) wedi'i fodloni nad yw'r meddiannydd bellach yn defnyddio'r safle at y pwrpas y rhoddyd caniatâd ar ei gyfer.

(2) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn dirymu o dan baragraff (1)(b) neu (1)(c) mae'r weithdrefn apelio yn

## Suspension and amendment

12.-(1) The National Assembly may suspend or amend an approval, authorisation, licence or registration granted under these Regulations if-

- (a) any of the conditions under which it was granted is not fulfilled; or
- (b) it is satisfied that the provisions of the Community TSE Regulation or of these Regulations are not being complied with.

(2) A suspension or amendment must-

- (a) have immediate effect if the National Assembly considers it necessary for the protection of public or animal health; and
- (b) otherwise must not have effect for at least 21 days.

(3) Notification of the suspension or amendment must-

- (a) be in writing;
- (b) state when it comes into effect;
- (c) give the reasons; and
- (d) explain the right of the person who has been notified to make written representations to a person appointed by the National Assembly.

(4) The appeals procedure in regulation 14 then applies.

(5) If the suspension or amendment does not have immediate effect and representations are made under regulation 14, it must not have effect until the final determination by the National Assembly of the appeal unless it considers that it is necessary for the protection of public or animal health for the amendment or suspension to have effect before then.

## Revocations of approvals, etc.

13.-(1) The National Assembly may revoke an approval, authorisation, licence or registration granted under these Regulations if it is satisfied that the premises will not be operated in accordance with the Community TSE Regulation or these Regulations and if-

- (a) it is currently suspended and the period for appeal under regulation 14 has expired or it has upheld the suspension following such appeal;
- (b) it has previously suspended it and there is further non-compliance with the Community TSE Regulation or these Regulations; or
- (c) it is satisfied that the occupier no longer uses the premises for the purpose for which it was granted.

(2) If the National Assembly revokes under paragraph (1)(b) or (1)(c) the appeals procedure in

rheoliad 14 yn gymwys ond mae'r dirymu yn parhau mewn grym yn ystod y weithdrefn apelio.

### **Y weithdrefn apelio**

14.-(1) Lle bo'r rheoliad hwn yn gymwys, gall person wneud sylwadau ysgrifenedig ynglŷn â phenderfyniad i berson a benodwyd at y pwrpas gan y Cynulliad Cenedlaethol o fewn 21 diwrnod o roi hysbysiad o'r penderfyniad

(2) Rhaid i'r person a benodir roi adroddiad ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi hysbysiad ysgrifenedig i'r apelydd o'i benderfyniad terfynol a'r rhesymau amdano.

### **Prisio**

15.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo rhaid cael prisiad o dan y Rheoliadau hyn.

(2) Caiff y perchennog a Chynulliad Cenedlaethol Cymru gytuno ar y cyfryw brisiad.

(3) Os na all y perchennog a'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar y cyfryw brisiad, cânt benodi prisiwr ar y cyd.

(4) Os na all y perchennog a'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno ar bwy fydd y prisiwr, rhaid i Lywydd Sefydliad Brenhinol y Syrffewyr Siartredig enwebu'r prisiwr, a rhaid i'r perchennog a'r Cynulliad Cenedlaethol ill dau dderbyn yr enwebiad.

(5) Rhaid i'r prisiwr gyflawni'r prisiad a'i gyflwyno ynghyd ag unrhyw wybodaeth a dogfennaeth berthnasol arall i'r Cynulliad Cenedlaethol, a rhoi copi i'r perchennog.

(6) Mae gan y perchennog a chynrychiolydd y Cynulliad Cenedlaethol ill dau yr hawl i fod yn bresennol mewn prisiad.

(7) Mae'r prisiad yn rhwymo'r perchennog a'r Cynulliad Cenedlaethol ill dau.

### **Penodi arolygwyr**

16. Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r awdurdod lleol benodi arolygwyr at bwrpas gorfodi'r Rheoliadau hyn ac eithrio fel y nodwyd yn Atodlen 6.

### **Pwerau i gael mynediad**

17.-(1) Mae'n rhaid i arolygwr, ar ôl dangos, lle bo'r angen, dogfen ddilys yn dangos ei awdurdod, gael yr hawl ar bob awr resymol, i fynd mewn i unrhyw safle (gan gynnwys unrhyw safle domestig os yw'n cael ei ddefnyddio at unrhyw bwrpas mewn cysylltiad â Rheoliad TSE y Gymuned a'r Rheoliadau hyn) er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Rheoliad TSE y

regulation 14 applies but the revocation remains in force during that appeals procedure.

### **Appeals procedure**

14.-(1) Where this regulation applies, a person may make written representations concerning a decision within 21 days of notification of the decision to a person appointed for the purpose by the National Assembly.

(2) The appointed person must report in writing to the National Assembly.

(3) The National Assembly must give to the appellant written notification of its final determination and the reasons for it.

### **Valuations**

15.-(1) This regulation applies when a valuation is necessary under these Regulations.

(2) The owner and the National Assembly may agree such a valuation.

(3) If the owner and the National Assembly cannot agree on such a valuation, they may jointly appoint a valuer.

(4) If the owner and the National Assembly cannot agree on who the valuer is to be, the President of the Royal Institution of Chartered Surveyors will nominate the valuer, and both the owner and the National Assembly must accept the nomination.

(5) The valuer will carry out the valuation and submit it and any other relevant information and documentation to the National Assembly, and a copy to the owner.

(6) Both the owner and a representative of the National Assembly have the right to be present at a valuation.

(7) The valuation is binding on both the owner and the National Assembly.

### **Appointment of inspectors**

16. The National Assembly and the local authority must appoint inspectors for the purposes of the enforcement of these Regulations except as specified in Schedule 6.

### **Powers of entry**

17.-(1) An inspector must, on producing, if so required, some duly authenticated document showing his or her authority, have a right at all reasonable hours, to enter any premises (including any domestic premises if they are being used for any purpose in connection with the Community TSE Regulation and these Regulations) for the purpose of ensuring that the

Gymuned a'r Rheoliadau hyn; ac yn y rheoliad hwn mae "safle" yn cynnwys unrhyw gerbyd, cynhwysydd neu strwythur (symudol neu beidio).

- (2) Gydag ef neu hi gall arolygwr fynd â-
- (a) unrhyw bersonau eraill yr ystyria bod eu hangen; ac
  - (b) unrhyw gynrychiolydd o'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n gweithredu at ddiben gorfodi rhwymedigaeth Gymunedol.

(3) Os bydd arolygydd yn mynd mewn i unrhyw safle sydd heb ei feddiannu mae'n rhaid iddo ei adael wedi ei ddiogelu yr un mor effeithiol yn erbyn mynediad anawdurdodedig ag yr oedd pan aeth iddo.

### **Pwerau arolygwyr**

#### **18.-(1) Gall arolygydd-**

- (a) gymryd i'w feddiant unrhyw-
  - (i) anifail;
  - (ii) corff anifail, ac unrhyw rannau o'r corff (gan gynnwys y gwaed a'r croen) ac unrhyw semen, embryo neu ofwm; neu
  - (iii) brotein anifeiliaid neu fwydydd anifeiliaid a all gynnwys protein anifeiliaid,

a'u gwaredu fel bo'r angen;

- (b) cynnal unrhyw ymholiadau, ymchwiliadau, archwiliadau a phroffion;
- (c) casglu, corlannu ac archwilio unrhyw anifail ac at y pwrpas hwn gall fynnu bod ceidwad unrhyw anifail o'r fath yn trefnu i gasglu a chorlannu'r anifail;
- (ch) archwilio unrhyw gorff anifail ac unrhyw rannau o'r corff (gan gynnwys y gwaed a'r croen) ac unrhyw semen, embryo neu ofwm;
- (d) archwilio unrhyw ran o'r safle, unrhyw gyfarpar, cyfleuster, gwaith neu weithdrefn;
- (dd) cymryd unrhyw samplau;
- (e) cael hawl gweld unrhyw gofnodion, a'u harchwilio a'u copïo (ym mha bynnag ffurf y maent) er mwyn penderfynu a gydymffurfir â'r Rheoliadau hyn, gan gynnwys cofnodion a gedwir o dan Reoliad TSE y Gymuned a'r Rheoliadau hyn, neu gymryd y cofnodion er mwyn eu copïo;
- (f) cael mynediad at unrhyw gyfrifiadur a'i archwilio a gwirio ei weithrediad, ac unrhyw gyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig sy'n cael ei ddefnyddio neu wedi cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw gofnod; ac at y diben hwn, efallai bydd rhaid i unrhyw berson sy'n gyfrifol am, neu'n gysylltiedig â gweithrediad y cyfrifiadur, y cyfarpar neu'r deunydd, roi cymorth iddo fel sy'n ofynnol yn rhesymol (gan gynnwys rhoi unrhyw gyfrinair

Community TSE Regulation and these Regulations are being complied with; and in this regulation "premises" includes any vehicle, container or structure (moveable or otherwise).

- (2) An inspector may take with him or her-
- (a) such other persons as he or she considers necessary; and
  - (b) any representative of the European Commission acting for the purpose of the enforcement of a Community obligation.

(3) If an inspector enters any unoccupied premises he or she must leave them as effectively secured against unauthorised entry as he or she found them.

### **Powers of inspectors**

#### **18.-(1) An inspector may-**

- (a) seize any-
  - (i) animal;
  - (ii) body of an animal, and any parts of the body (including the blood and the hide) and any semen, embryo or ovum; or
  - (iii) animal protein or feedingstuffs that may contain animal protein,

and dispose of them as necessary;

- (b) carry out any inquiries, investigations, examinations and tests;
- (c) collect, pen and inspect any animal and for this purpose may require the keeper of any such animal to arrange for the collection and penning of the animal;
- (d) inspect any body of an animal and any parts of the body (including the blood and the hide) and any semen, embryo or ovum;
- (e) inspect any part of the premises, any equipment, facility, operation or procedure;
- (f) take any samples;
- (g) have access to, and inspect and copy any records (in whatever form they are held) in order to determine if these Regulations are being complied with, including records kept under the Community TSE Regulation and these Regulations, or remove such records to enable them to be copied;
- (h) have access to, inspect and check the operation of, any computer and any associated apparatus or material that is or has been in use in connection with any record; and for this purpose may require any person having charge of, or otherwise concerned with the operation of, the computer, apparatus or material to afford the inspector such assistance as he or she may reasonably require (including providing the inspector with any necessary

angenrheidiol) a, lle cedwir cofnod ar gyfrifiadur, gall fod yn ofynnol i'r cofnodion gael eu cynhyrchu mewn ffurf y gellid eu cymryd ymaith;

(ff) marcio unrhyw beth (gan gynnwys anifail) yn electronig neu fel arall, at ddiben adnabod; a

(g) cloi neu selio unrhyw gynhwysydd neu storfa.

(2) Mae unrhyw berson sy'n difwyno, dileu neu'n tynnu unrhyw farc neu sêl, neu'n tynnu unrhyw glo, fel sy'n gymwys o dan baragraff (1) yn euog o drosedd.

(3) Nid yw arolygwr yn atebol yn bersonol am unrhyw beth y gwna-

(a) wrth weithredu'r Rheoliadau hyn neu ar y perwyl o'u gweithredu; ac

(b) o fewn cwmpas ei gyflogaeth,

os yw'n gweithredu yn y gred onest bod ei ddyletswydd o dan y Rheoliadau hyn yn ei gwneud hi'n ofynnol neu'n rhoi'r hawl iddo wneud hynny; ond nid yw hyn yn effeithio ar unrhyw atebolrwydd sydd gan ei gyflogwr.

## Hysbysiadau

19.-(1) Os oes rhaid, am unrhyw reswm sy'n gysylltiedig â gorfodi Reoliad TSE y Gymuned neu'r Rheoliadau hyn, gall arolygwr roi hysbysiad i-

(a) berchennog neu geidwad unrhyw anifail;

(b) person sydd â chorff neu unrhyw ran o gorff anifail (gan gynnwys y gwaed a'r croen) neu unrhyw semen, embryo neu ofwm yn ei feddiant; neu'r

(c) person sydd ag unrhyw brotein anifeiliaid neu fwydydd anifeiliaid a all cynnwys protein anifeiliaid yn ei feddiant.

(2) Mae'n rhaid i'r hysbysiad fod yn ysgrifenedig, a rhoi'r rhesymau pam bod yr hysbysiad yn cael ei gyflwyno.

(3) Gall yr hysbysiad-

(a) wahardd symud unrhyw anifail i'r safle neu o'r safle a nodwyd yn yr hysbysiad;

(b) nodi'r rhannau hynny o'r safle y gall anifail gael mynediad iddynt neu beidio a chael mynediad iddynt;

(c) ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw anifail gael ei ladd neu ei gigydda;

(ch) gwahardd neu ei gwneud hi'n ofynnol symud corff unrhyw anifail neu unrhyw ran o gorff (gan gynnwys gwaed a chroen) unrhyw anifail, unrhyw brotein anifeiliaid neu fwydydd anifeiliaid a all gynnwys protein anifeiliaid, ac unrhyw semen, embryo neu ofwm anifeiliaid i'r safle neu o'r safle sydd wedi ei nodi yn yr hysbysiad;

passwords) and, where a record is kept by means of a computer, may require the records to be produced in a form in which they may be taken away;

(i) mark anything (including an animal) whether electronically or otherwise, for identification purposes; and

(j) lock or seal any container or store.

(2) Any person who defaces, obliterates, or removes any mark or seal, or removes any lock, applied under paragraph (1) is guilty of an offence.

(3) An inspector is not personally liable for anything he or she does-

(a) in the execution or purported execution of these Regulations; and

(b) within the scope of his or her employment,

if he or she acted in the honest belief that his or her duty under these Regulations required or entitled him or her to do it; but this does not affect any liability of his or her employer.

## Notices

19.-(1) If it is necessary for any reason connected with the enforcement of the Community TSE Regulation or these Regulations an inspector may serve a notice on-

(a) the owner or keeper of any animal;

(b) the person in possession of the body or any part of the body of an animal (including the blood and the hide) or any semen, embryo or ovum; or

(c) the person in possession of any animal protein or feedingstuffs that may contain animal protein.

(2) The notice must be in writing, and must give the reasons for it being served.

(3) The notice may-

(a) prohibit the movement of any animal on to or from the premises specified in the notice;

(b) specify those parts of premises to which an animal may or may not be allowed access;

(c) require the killing or slaughter of any animal;

(d) prohibit or require the movement on to or from premises specified in the notice of the body or any part of the body (including the blood and the hide) of any animal, any animal protein or feedingstuffs that may contain animal protein, and any animal semen, embryo or ovum;

- (d) ei gwneud hi'n ofynnol gwaredu corff neu unrhyw ran o'r corff (gan gynnwys gwaed a chroen) unrhyw anifail (boed yr anifail yr oedd yn ofynnol ei gadw ai peidio,) ac unrhyw semen, embryo neu ofwm fel sydd wedi ei nodi yn yr hysbysiad;
- (dd) ei gwneud hi'n ofynnol gwaredu unrhyw brotein anifeiliaid neu fwydydd anifeiliaid a all fod yn cynnwys protein anifeiliaid neu nodi sut y maent i'w cael eu defnyddio; neu
- (e) ei gwneud hi'n ofynnol ail-alw unrhyw brotein anifeiliaid neu fwydydd anifeiliaid a all fod yn cynnwys protein anifeiliaid.

(4) Os bydd arolygwr yn amau bod unrhyw safle, cerbyd neu gynhwysydd y mae Rheoliad TSE y Gymuned neu'r Rheoliadau hyn yn berthnasol iddynt yn peri risg i iechyd anifeiliaid neu iechyd y cyhoedd, gall roi hysbysiad i'r meddiannydd neu'r person sy'n gyfrifol am y safle, y cerbyd neu gynhwysydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r person hwnnw lanhau a diheintio'r safle, y cerbyd neu'r cynhwysydd yn gyfan neu unrhyw ran ohono ac unrhyw gyfarpar sy'n gysylltiedig.

(5) Gall hysbysiad nodi sut mae cydymffurfio â'r hysbysiad, a nodi'r terfynau amser.

(6) Mae'n rhaid cydymffurfio â hysbysiad ar draul y person y mae'r hysbysiad wedi ei roi iddo, ac os na chydymffurfir â'r hysbysiad gall arolygwr drefnu y cydymffurfir â'r hysbysiad ar draul y person hwnnw.

(7) Mae peidio â chydymffurfio â hysbysiad yn drosedd.

### Hysbysiadau yn cyfyngu ar symud

**20.**-(1) Os cyflwynir hysbysiad yn cyfyngu ar symud, gall arolygydd ar ôl hynny ganiatáu symud gydag awdurdod trwydded.

(2) Mae'n rhaid i berson sy'n cludo o dan awdurdod trwydded gario'r drwydded gydag ef yn ystod symud, a'i ddangos ar gais i arolygydd, ac mae peidio â gwneud hynny yn drosedd.

### Rhwystro

**21.** Mae person yn euog o drosedd os yw-

- (a) yn rhwystro arolygydd sy'n gweithredu o dan y Rheoliadau hyn yn fwriadol;
- (b) heb achos rhesymol, yn peidio â rhoi unrhyw gymorth neu wybodaeth i arolygydd sy'n gweithredu o dan y Rheoliadau hyn neu'n peidio â darparu unrhyw gyfleusterau y mae'r arolygydd yn mynnu'n rhesymol iddo eu rhoddi neu eu darparu er mwyn i'r arolygydd weithredu ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn;

- (e) require the disposal of the body or any part of the body (including the blood and the hide) of any animal (whether or not it is one that was required to be detained), and any semen, embryo or ovum as may be specified in the notice;
- (f) require the disposal of any animal protein or feedingstuffs that may contain animal protein or specify how they are to be used; or
- (g) require the recall of any animal protein or feedingstuffs that may contain animal protein.

(4) If an inspector suspects that any premises, vehicle or container to which the Community TSE Regulation or these Regulations apply constitutes a risk to animal or public health, he or she may serve a notice on the occupier or person in charge of the premises, vehicle or container requiring that person to cleanse and disinfect all or any part of the premises, vehicle or container and any associated equipment.

(5) A notice may specify how it must be complied with, and specify time limits.

(6) A notice must be complied with at the expense of the person on whom it is served, and if it is not complied with an inspector may arrange to have it complied with at that person's expense.

(7) Failure to comply with a notice is an offence.

### Notices restricting movement

**20.**-(1) If a notice is served restricting movements, an inspector may subsequently permit movement under the authority of a licence.

(2) The person transporting under the authority of a licence must carry the licence with him or her during movement, and produce it on demand to an inspector, and failure to do so is an offence.

### Obstruction

**21.** A person is guilty of an offence if he or she-

- (a) intentionally obstructs an inspector acting under these Regulations;
- (b) without reasonable cause, fails to give to an inspector acting under these Regulations any assistance or information or to provide any facilities that the inspector may reasonably require the person to give or provide for the performance of his or her functions under these Regulations;



- (c) yn rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol i arolygydd sy'n gweithredu o dan y Rheoliadau hyn; neu
- (ch) yn peidio â chyflwyno cofnod pan mae'n ofynnol iddo wneud hynny gan arolygydd sy'n gweithredu o dan y Rheoliadau hyn.

### **Cosbau**

**22.** Mae person sy'n euog o drosedd o dan y Rheoliadau hyn yn agored-

- (a) i ddirwy o ddim mwy na'r mwyafswm statudol neu i garchar am dymor o dri mis neu'r ddau, ar gollfarn ddiannod; neu
- (b) i ddirwy neu i garchar am dymor o ddim mwy na dwy flynedd, neu'r ddau, ar gollfarniad ar dditment.

### **Troseddau gan gyrff corfforaethol**

**23.**-(1) Lle bo corff corfforaethol yn euog o drosedd o dan y Rheoliadau hyn, ac y profir bod y drosedd honno wedi ei chyflawni gyda chaniatâd neu oddefiad, neu ei bod wedi ei phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran-

- (a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu berson tebyg arall o'r corff corfforaethol; neu
- (b) unrhyw berson a oedd yn cymryd arno ei fod yn gweithredu mewn unrhyw allu o'r fath,

y mae ef neu hi, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r drosedd.

(2) At bwrpas paragraff (1), ystyr "cyfarwyddwr", mewn perthynas â chorff corfforaethol y mae ei fusnes yn cael ei reoli gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol.

### **Gorfodi**

**24.**-(1) Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gorfodi Atodlen 2 mewn lladd-dai a safleoedd torri.

(2) Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gorfodi Atodlen 6 mewn lladd-dai a safleoedd torri.

(3) Fel arall mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gorfodi gan yr awdurdod lleol.

(4) Gall y Cynulliad Cenedlaethol, mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad arbennig neu unrhyw achos arbennig, roi cyfarwyddyd bod rhaid i ddyletswydd gorfodi a roddir ar awdurdod lleol o dan y rheoliad hwn gael ei weithredu gan y Cynulliad Cenedlaethol ac nid gan yr awdurdod lleol.

- (c) gives false or misleading information to an inspector acting under these Regulations; or
- (d) fails to produce a record when required to do so by an inspector acting under these Regulations.

### **Penalties**

**22.** A person guilty of an offence under these Regulations is liable-

- (a) on summary conviction, to a fine not exceeding the statutory maximum or to imprisonment for a term of three months or both; or
- (b) on conviction on indictment, to a fine or to imprisonment for a term not exceeding two years or both.

### **Offences by bodies corporate**

**23.**-(1) Where a body corporate is guilty of an offence under these Regulations, and that offence is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to have been attributable to any neglect on the part of-

- (a) any director, manager, secretary or other similar person of the body corporate; or
- (b) any person who was purporting to act in any such capacity,

he or she, as well as the body corporate, is guilty of the offence.

(2) For the purposes of paragraph (1), "director", in relation to a body corporate whose affairs are managed by its members, means a member of the body corporate.

### **Enforcement**

**24.**-(1) The National Assembly enforces Schedule 2 in slaughterhouses and cutting plants.

(2) The Food Standards Agency enforces Schedule 6 in slaughterhouses and cutting plants.

(3) Otherwise these Regulations are enforced by the local authority.

(4) The National Assembly may direct, in relation to cases of a particular description or any particular case, that an enforcement duty imposed on the local authority under this regulation must be discharged by the National Assembly and not by the local authority.

## **Diwygiad i Reoliadau TSE (Cymru) 2002**

**25.** Ym mharagraff 17(1) o Atodlen 6A i Reoliadau TSE (Cymru) 2002(1) yn lle'r geiriau "yr atodlen hon" rhodder y geiriau "atodlen 4 i Reoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy (Cymru) 2006".

## **Dirymu**

**26.** Diddymir y darpariaethau sydd yn Atodlen 8 yn ogystal â'r rheoliadau canlynol.

- (a) Rheoliadau Cynhyrchu Colagen Buchol y Bwriedir i Bobl ei Fwyta yn y Deyrnas Unedig (Cymru) 2005(2);
- (b) Rheoliadau Bucholion a Chynhyrchion Buchol (Masnach) 1999(3).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(4)

2 Mai 2006

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

## **Amendment of the TSE (Wales) Regulations 2002**

**25.** In paragraph 17(1) of Schedule 6A to the TSE (Wales) Regulations 2002(1) for the words "this Schedule" substitute the words "Schedule 4 to the TSE (Wales) Regulations 2006".

## **Revocations**

**26.** The provisions in Schedule 8 and the following regulations are revoked-

- (a) the Production of Bovine Collagen Intended for Human Consumption in the United Kingdom (Wales) Regulations 2005(2)
- (b) the Bovines and Bovine Products (Trade) Regulations 1999(3)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(4)

2 May 2006

The Presiding Officer of the National Assembly

---

(1) O.S.2002/1416

(2) O.S. 2005/1397(W.111)

(3) O.S. 1999/1103

(4) 1998 p.38

---

(1) 2002/ 1416 (W.142)

(2) 2005 / 1397 (W.111)

(3) 1999/1103

(4) 1998 c.38

## Rheoliad 2(1)

Offerynnau sy'n berthnasol i Reoliad TSE y Gymuned

Mae Rheoliad TSE y Gymuned wedi cael ei ddiwygio gan, a rhaid ei ddarllen gyda-

1. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1248/2001 yn diwygio Atodiadau III, X a XI i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas ag arolygaeth epidemiolegol ac arbrofi enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy(1);

2. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1326/2001 yn gosod mesurau trosiannol i ganiatáu newid drosodd i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfer atal, rheoli a dileu rhai mathau o enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy, a diwygio Atodiadau VII a XI i'r Rheoliad hwnnw(2);

3. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 270/2002 yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â deunydd risg penodedig ag arolygaeth epidemiolegol ar gyfer enseffalopathïau sbyngffurf tros-glywyddadwy ac yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1326/2001 mewn perthynas â bwydo anifeiliaid a rhoi defaid a geifr a'u cynhyrchion ar y farchnad(3);

4. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1494/2002 yn diwygio Atodiadau III, VII a XI i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â monitro enseffalopathïau sbyngffurf mewn gwartheg, dileu enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy, symud deunydd risg penodedig a rheolau ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid(4);

5. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 260/2003 yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â dileu ensffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy mewn defaid a geifr a rheoliadau ar gyfer y fasnach mewn defaid a geifr byw ac embryonau gwartheg(5);

(1) OJ Rhif L 173, 27.6.2001, tud.12.

(2) OJ Rhif L177, 30.6.2001, tud.60.

(3) OJ Rhif L45, 15.2.2002, tud. 4.

(4) OJ Rhif L 225, 22.8.2002, tud. 3.

(5) OJ Rhif L37, 13.2.2003. tud. 7.

## Regulation 2(1)

Instruments relevant to Community TSE Regulation

The Community TSE Regulation has been amended by, and must be read with-

1. Commission Regulation (EC) No 1248/2001 amending Annexes III, X and XI to Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards epidemic-surveillance and testing of transmissible spongiform encephalopathies(1);

2. Commission Regulation (EC) No 1326/2001 laying down transitional measures to permit the changeover to Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council for the prevention, control and eradication of certain transmissible spongiform encephalopathies, and amending Annexes VII and XI to that Regulation(2);

3. Commission Regulation (EC) No 270/2002 amending Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards specified risk material and epidemio-surveillance for transmissible spongiform encephalopathies and amending Regulation (EC) No 1326/2001 as regards animal feeding and placing on the market of ovine and caprine animals and products thereof(3);

4. Commission Regulation (EC) No 1494/2002 amending Annexes III, VII and XI to Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and the Council as regards monitoring of bovine spongiform encephalopathy, eradication of transmissible spongiform encephalopathy, removal of specified risk material and rules for the importation of live animals and products of animal origin(4);

5. Commission Regulation (EC) No 260/2003 amending Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards the eradication of transmissible spongiform encephalopathies in ovine and caprine animals and rules for the trade in live ovine and caprine animals and bovine embryos(5);

(1) OJ No. L 173, 27.6.2001, p.12.

(2) OJ No. L 177, 30.6.2001, p.61.

(3) OJ No. L 45, 15.2.2002, p. 4.

(4) OJ No. L 225, 22.8.2002, p. 3.

(5) OJ No. L 37, 13.2.2003, p. 7.

6. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 650/2003 yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â mewnfurio defaid a geifr byw(1);

7. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1053/2003 yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â phroffion cyflym(2);

8. Deddf yn ymwneud ag amodau dod â Gweriniaeth Tsiec, gweriniaeth Estonia, Gweriniaeth Cyprus, Gweriniaeth Latfia, Gweriniaeth Lithuania, Gweriniaeth Hwngari, Gweriniaeth Malta, Gweriniaeth Gwlad Pwyl, Gweriniaeth Slofenia ac y Weriniaeth Slofac yn aelod wledydd a newidiadau i'r Cytundebau y cafodd yr Undeb Ewropeaidd ei sefydlu arnynt(3);

9. Rheoliad (EC) Rhif 1128/2003 o Senedd Ewrop a'r Cyngor yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 mewn perthynas ag ymestyn y cyfnod ar gyfer mesurau trosiannol(4);

10. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1139/2003 yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â monitro rhaglenni a deunydd risg penodedig(5);

11. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1234/2003 yn diwygio Atodiadau I, IV a XI i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor a Rheoliad (EC) Rhif 1326/2001 mewn perthynas ag eneffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy a bwydo anifeiliaid(6);

12. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1809/2003 yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â rheolau ar gyfer mewnfurio gwartheg byw a chynhyrchion sy'n dod o wartheg, defaid a geifr o Costa Rica a Caledonia Newydd(7);

13. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1915/2003 yn diwygio Atodiadau VII, VIII a IX i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â masnachu a mewnfurio defaid a geifr a'r mesurau yn dilyn cadarnhau ensepalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy mewn gwartheg, defaid a geifr(8);

6. Commission Regulation (EC) No 650/2003 amending Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards the import of live ovine and caprine animals(1);

7. Commission Regulation (EC) No 1053/2003 amending Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and the Council as regards rapid tests(2);

8. Act concerning the conditions of accession of the Czech Republic, the Republic of Estonia, the Republic of Cyprus, the Republic of Latvia, the Republic of Lithuania, the Republic of Hungary, the Republic of Malta, the Republic of Poland, the Republic of Slovenia and the Slovak Republic and the adjustments to the Treaties on which the European Union is founded(3);

9. Regulation (EC) No 1128/2003 of the European Parliament and of the Council amending Regulation (EC) No 999/2001 as regards the extension of the period for transitional measures(4);

10. Commission Regulation (EC) No 1139/2003 amending Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards monitoring programmes and specified risk material(5);

11. Commission Regulation (EC) No 1234/2003 amending Annexes I, IV and XI to Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council and Regulation (EC) No 1326/2001 as regards transmissible spongiform encephalopathies and animal feeding(6);

12. Commission Regulation (EC) No 1809/2003 amending Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards rules for importation of live bovine animals and products of bovine, ovine and caprine origin from Costa Rica and New Caledonia(7);

13. Commission Regulation (EC) No 1915/2003 amending Annexes VII, VIII and IX to Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and the Council as regards the trade and import of ovine and caprine animals and the measures following the confirmation of transmissible spongiform encephalopathies in bovine, ovine and caprine animals(8);

---

(1) OJ Rhif L 95, 11.4.2003, tud.15.

(2) OJ Rhif L 152, 20.6.2003, tud.8.

(3) OJ Rhif L 236, 23.9.2003, tud.33.

(4) OJ Rhif L 160, 28.6.2003, tud.1.

(5) OJ Rhif L 160, 28.6.2003, tud.22.

(6) OJ Rhif L 173, 11.7. 2003, tud.6.

(7) OJ Rhif L265, 16.10.2003, tud.10.

(8) OJ Rhif L283, 31.10.2003, tud.29.

---

(1) OJ No. L 95, 11.4.2003, p.15.

(2) OJ No. L 152, 20.6.2003, p.8.

(3) OJ No. L 236, 23.9.2003, p.33.

(4) OJ No. L 160, 28.6.2003, p.1.

(5) OJ No. L 160, 28.6.2003, p.22.

(6) OJ No. L 173, 11.7. 2003, p.6.

(7) OJ No. L 265, 16.10.2003, p.10.

(8) OJ No. L 283, 31.10.2003, p.29.

**14.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2245/2003 yn diwygio Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â monitro eneffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy mewn defaid a geifr(1);

**15.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 876/2004 yn diwygio Atodiad VIII i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â masnach mewn defaid a geifr ar gyfer bridio(2);

**16.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1471/2004 yn diwygio Atodiad XI i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â mewnfario cynhyrchion carw o Ganada a'r Unol Daleithiau(3);

**17.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1492/2004 yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â mesurau dileu eneffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy mewn gwartheg, defaid a geifr, masnachu a mewnfario semen ac embryonau defaid a geifr a deunydd risg penodedig(4);

**18.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1993/2004 yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â Phortiwgal(5);

**19.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 36/2005 yn diwygio Atodiadau III a X i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas ag arolygaeth epidemiolegol ar gyfer eneffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy mewn gwartheg, defaid a geifr(6);

**20.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 214/2005 yn diwygio Atodiad III i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â monitro eneffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy mewn geifr(7);

**21.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 260/2005 yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â phroffion cyflym(8);

**14.** Commission Regulation (EC) No 2245/2003 amending Annex III to Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards monitoring of transmissible spongiform encephalopathies in ovine and caprine animals(1);

**15.** Commission Regulation (EC) No 876/2004 amending Annex VIII to Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards trade in ovine and caprine animals for breeding(2);

**16.** Commission Regulation (EC) No 1471/2004 amending Annex XI to Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards the import of cervid products from Canada and the United States(3);

**17.** Commission Regulation (EC) No 1492/2004 amending Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards eradication measures for transmissible spongiform encephalopathies in bovine, ovine and caprine animals, the trade and importation of semen and embryos of ovine and caprine animals and specified risk material(4);

**18.** Commission Regulation (EC) No 1993/2004 amending Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards Portugal(5);

**19.** Commission Regulation (EC) No 36/2005 amending Annexes III and X to Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards epidemio-surveillance for transmissible spongiform encephalopathies in bovine, ovine and caprine animals(6);

**20.** Commission Regulation (EC) No 214/2005 amending Annex III to Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards monitoring of transmissible spongiform encephalopathies in caprine animals(7);

**21.** Commission Regulation (EC) No 260/2005 amending Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards rapid tests(8);

---

(1) OJ Rhif L 333, 20.12.2003, tud.28.

(2) OJ Rhif L 162, 30.04.2004, tud.52.

(3) OJ Rhif L 271, 19.08.2004, tud.24.

(4) OJ Rhif L 274, 24.8.2004, tud. 3.

(5) OJ Rhif L 344, 20.11.2004, tud.12.

(6) OJ Rhif L 10, 13.1.2005, tud.9.

(7) OJ Rhif L 37, 10.2.2005, tud.9.

(8) OJ Rhif L 46, 17.2.2005, tud.31.

---

(1) OJ No. L 333, 20.12.2003, p.28.

(2) OJ No. L 162, 30.04.2004, p.52.

(3) OJ No. L 271, 19.08.2004, p.24.

(4) OJ No. L 274, 24.8.2004, p.3.

(5) OJ No. L 344, 20.11.2004, p.12.

(6) OJ No. L 10, 13.1.2005, p.9.

(7) OJ No. L 37, 10.2.2005, p.9.

(8) OJ No. L 46, 17.2.2005, p.31.

**22.** Rheoliad (EC) Rhif 932/2005 o Senedd Ewrop a'r Cyngor yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 yn gosod rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu rhai mathau o enffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy mewn perthynas ag ymestyn y cyfnod ar gyfer mesurau trosiannol(1);

**23.** Penderfyniad y Comisiwn 2005/598/EC yn gwahardd rhoi cynhyrchion sy'n deillio o wartheg a anwyd neu a fagwyd yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996 ar y farchnad at unrhyw bwrpas ac yn eithrio anifeiliaid o'r fath o rai mesurau rheoli a dileu arbennig a osodwyd yn Rheoliad (EC) Rhif 999/2001(2);

**24.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1292/2005 yn diwygio Atodiad IV i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â maeth anifeiliaid(3); a

**25.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1974/2005 yn diwygio Atodiadau X a XI i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 o Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â labordai cyfeirio cenedlaethol a deunydd risg penodedig(4).

**26.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 253/2006 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran profion cyflym a mesurau i ddileu TSE mewn anifeiliaid o deulu'r ddafad a'r afr(5);

**27.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 339/2006 sy'n diwygio Atodiad XI i Reoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y rheolau ar fewnforio anifeiliaid buchol byw a chynnyrch sy'n dod o anifeiliaid buchol, ac o anifeiliaid o deulu'r ddafad a'r afr(6); a

**28.** Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 657/2006 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â'r Deyrnas Unedig ac yn dirymu Penderfyniad y Cyngor 98/256/EC a Phenderfyniadau 98/351/EC ac 1999/514/EC(7).

**22.** Regulation (EC) No 932/2005 of the European Parliament and of the Council amending Regulation (EC) No 999/2001 laying down rules for the prevention, control and eradication of certain transmissible spongiform encephalopathies as regards the extension of the period for transitional measures(1);

**23.** Commission Decision 2005/598/EC prohibiting the placing on the market of products derived from bovine animals born or reared within the United Kingdom before 1 August 1996 for any purpose and exempting such animals from certain control and eradication measures laid down in Regulation (EC) No 999/2001(2);

**24.** Commission Regulation (EC) No 1292/2005 amending Annex IV to Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards animal nutrition(3); and

**25.** Commission Regulation (EC) No 1974/2005 amending Annexes X and XI to Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards national reference laboratories and specified risk material(4).

**26.** Commission Regulation (EC) No 253/2006 amending Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards rapid tests and measures for the eradication of TSE's in ovine and caprine animals(5);

**27.** Commission Regulation (EC) No 339/2006 amending Annex XI to Regulation (EC) No 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards the rules for importation of live bovine animals and produce of bovine, ovine and caprine origin(6); and

**28.** Commission Regulation (EC) No. 657/2006 amending Regulation (EC) No. 999/2001 of the European Parliament and of the Council as regards the United Kingdom and repealing Council Decision 98/256/EC and Decisions 98/351/EC and 1999/514/EC(7)

---

(1) OJ Rhif L 163, 23.6.2005, tud 1.

(2) OJ Rhif L 204, 5.8.2005, tud 22.

(3) OJ Rhif L 205, 6.8.2005, tud 3.

(4) OJ Rhif. L 317, 3.12.2005, tud 4.

(5) OJ Rhif L44, 15.2.2006, tud 9.

(6) OJ Rhif L55, 25.2.2006, tud5.

(7) OJ Rhif L116, 29.04.06, tud 9.

---

(1) OJ No. L 163, 23.6.2005, p. 1.

(2) OJ No. L 204, 5.8.2005, p. 22.

(3) OJ No. L 205, 6.8.2005, p. 3.

(4) OJ No. L 317, 3.12.2005, p. 4.

(5) OJ No L317, 3.12.2005.p.4.

(6) OJ No L44, 24.2.2006, p.9.

(7) O.J. L116, 29.4.06, p.009.

## ATODLEN 2

Rheoliad 5

Monitro TSE

CYNNWYS

### RHAN 1

Monitro ar gyfer TSE

1. Hysbysiadau at bwrpas monitro o dan Erthygl 6 o Reoliad TSE y Gymuned
2. Traddodi a chigydda anifeiliaid buchol sydd dros yr oedran
3. Samplu coesyn yr ymennydd mewn gwartheg
4. Cigydda gwartheg sydd dros 30 mis oed
5. Cadw cynhyrchion a'u gwaredu
6. Iawndal

### RHAN 2

Cynnwys Dulliau Gofynnol o Weithredu (DGW)

7. Adnabod a gwahanu anifeiliaid
8. Samplu coesyn yr ymennydd
9. Y cydberthyniad rhwng sampl o sgerbwd a phob rhan arall o'r corff
10. Cadw sgerbydau
11. Cadw rhannau o'r corff
12. Gwaredu cyn derbyn y canlyniad
13. Dulliau eraill yn dilyn samplu
14. Tynnu asgwrn y cefn

## SCHEDULE 2

Regulation 5

TSE monitoring

CONTENTS

### PART 1

Monitoring for TSE

1. Notifications for the purposes of monitoring under Article 6 of the Community TSE Regulation
2. Consignment and slaughter of an over-age bovine animal
3. Brain stem sampling of bovine animals
4. Slaughter of bovine animals over 30 months of age
5. Retention of products and disposal
6. Compensation

### PART 2

Contents of an RMOP

7. Animal identification and separation
8. Brain stem sampling
9. Correlation of sample to carcase and all other parts of the body
10. Retention of carcasses
11. Retention of parts of the body
12. Disposal before receipt of the result
13. Other measures following sampling
14. Removal of vertebral column

## RHAN 1

### Monitro ar gyfer TSE

#### **Hysbysiadau at ddiben monitro o dan Erthygl 6 o Reoliad TSE y Gymuned**

1.-(1) At ddiben monitro o dan Erthygl 6 o Reoliad TSE y Gymuned, rhaid i berson sydd â chorff buwch yn ei feddiant neu o dan ei ofal y bo'n rhaid ei brofi yn unol â phwynt 3(1) o Ran I o Bennod A yn Atodiad III i'r Rheoliad hwnnw, neu gorff gafr 18 mis oed neu fwy adeg marwolaeth,-

- (a) hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o fewn 24 awr o'r amser pan yw'r anifail yn marw neu'n cael ei ladd neu'r corff yn dod i'w feddiant neu o dan ei ofal; a'i
- (b) gadw hyd nes y bydd wedi ei gasglu gan y Cynulliad Cenedlaethol neu ar ei ran,

ac mae peidio â gwneud hyn yn drosedd.

(2) Nid yw'r paragraff hwn yn gymwys mewn perthynas â geifr sy'n cael eu cigydda i'w bwyta gan bobl neu eu lladd yn unol ag Atodlen 4.

#### **Traddodi a chigydda anifeiliaid buchol sydd dros yr oed**

2. Os cafodd yr anifeiliaid buchol eu geni neu eu magu yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996, mae'n drosedd-

- (a) eu traddodi i ladd-dy i'w bwyta gan bobl (boed yr anifeiliaid yn fyw neu'n farw); neu
- (b) eu cigydda mewn lladd-dy i'w bwyta gan bobl.

#### **Samplu coesyn yr ymennydd mewn anifeiliaid buchol**

3.-(1) Mae'n rhaid i feddiannydd lladd-dy lle bydd anifeiliaid buchol a nodwyd ym mhwynt 2(1) neu 2(2) o Ran I o Bennod A o Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned yn cael eu cigydda-

- (a) gymryd sampl o goesyn yr ymennydd yn unol â phwynt 1 o Bennod C o Atodiad X i Reoliad TSE y Gymuned; a
- (b) threfnu i'r sampl gael ei anfon i labordy profi sydd wedi ei gymeradwyo,

ac mae peidio â gwneud hyn yn drosedd.

(2) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, trwy hysbysiad, hysbysu meddiannydd lladd-dy os bydd anifail yn dod o fewn y categorïau a nodwyd ym mhwynt 2(1) o Ran I o Bennod A i Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned (ac eithrio mewn achos anifail marw a draddodwyd i ladd-dy gyda datganiad

## PART 1

### Monitoring for TSE

#### **Notifications for the purposes of monitoring under Article 6 of the Community TSE Regulation**

1.-(1) For the purposes of monitoring under Article 6 of the Community TSE Regulation, a person who has in his or her possession or under his or her charge the body of a bovine animal that must be tested in accordance with point 3(1) of Part I of Chapter A of Annex III to that Regulation, or the body of any goat aged 18 months or over at death, must-

- (a) within 24 hours from the time when the animal dies or was killed or the body comes into his or her possession or charge notify the National Assembly; and
- (b) detain it until it has been collected by or on behalf of the National Assembly,

and failure to do so is an offence.

(2) This paragraph does not apply in relation to goats slaughtered for human consumption or killed in accordance with Schedule 4.

#### **Consignment and slaughter of an over-age bovine animal**

2. If a bovine animal was born or reared in the United Kingdom before 1 August 1996, it is an offence-

- (a) to consign it to a slaughterhouse for human consumption (whether the animal is alive or dead); or
- (b) to slaughter it for human consumption in a slaughterhouse.

#### **Brain stem sampling of bovine animals**

3.-(1) The occupier of a slaughterhouse in which a bovine animal specified in point 2(1) or 2(2) of Part I of Chapter A of Annex III to the Community TSE Regulation is slaughtered must-

- (a) take a sample of brain stem in accordance with point 1 of Chapter C of Annex X to the Community TSE Regulation; and
- (b) arrange for it to be delivered to an approved testing laboratory,

and failure to do so is an offence.

(2) The National Assembly must, by means of a notice, notify the occupier of a slaughterhouse if an animal comes into the categories specified in point 2(1) of Part I of Chapter A to Annex III to the Community TSE Regulation (except in the case of a dead animal consigned to a slaughterhouse with a written



ysgrifenedig oddi wrth filfeddyg yn dweud ei fod yn disgyn i un o'r categorïau hynny).

(3) Yn unol â phwynt 5 o Ran 1 o Bennod A o Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned, gall y Cynulliad Cenedlaethol roi hysbysiad i feddiannydd lladd-dy yn ei gwneud hi'n ofynnol iddo gymryd sampl o unrhyw anifeiliaid buchol sy'n cael eu cigydda yno a'u hanfon i'w cael eu profi yn unol ag is-baragraff (1).

(4) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo labordai sydd i brofi samplau a gymerwyd o dan y paragraff hwn os yw wedi'i fodloni y bydd y labordy-

- (a) yn cynnal y profion yn unol â Phennod C o Atodiad X i Reoliad TSE y Gymuned;
- (b) bod gan y labordy weithdrefnau rheoli ansawdd digonol; a
- (c) bod gan y labordy weithdrefnau digonol i adnabod y samplau yn gywir a hysbysu canlyniadau'r prawf i'r lladd-dy a draddododd y samplau.

(5) Yn y paragraff hwn ystyr "labordy profi cymeradwy" yw labordy sydd wedi ei gymeradwyo o dan y paragraff hwn neu labordy mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig a gymeradwywyd gan yr awdurdod cymwys i gynnal y prawf.

#### **Cigydda anifeiliaid buchol dros 30 mis oed**

4.-(1) Mae'n drosedd i feddiannydd ddefnyddio lladd-dy i gigydda anifeiliaid buchol dros 30 mis oed i'w bwyta gan bobl oni bai bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi cymeradwyo'r Dull Gofynnol o Weithredu ("DGW") ar gyfer y lladd-dy hwnnw a'r meddiannydd hwnnw.

(2) Mae'n rhaid i'r DGW, o leiaf-

- (a) ddisgrifio'r gweithdrefnau a fydd yn cael eu dilyn i gydymffurfio â Rhan 1 o'r Atodlen hon; a
- (b) disgrifio'r holl systemau a gweithdrefnau a nodwyd yn Rhan II yr Atodlen.

(3) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymeradwyo'r DGW os yw wedi'i fodloni y cydymffurfir â holl ofynion Rheoliad TSE y Gymuned a'r Rheoliadau hyn, ac mae'n rhaid i'r meddiannydd ddangos hyn trwy asesiad dau ddiwrnod lle bydd anifeiliaid yn cael eu cigydda (gan ddefnyddio gwartheg o dan 30 mis oed oni bai bod y lladd-dy yn gweithredu at ddibenion Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 716/96 sy'n mabwysiadu mesurau cynorthwyol eithriadol ar gyfer y farchnad cig eidion yn y Deyrnas Unedig(1)).

---

(1) OJ Rhif L99, 20.4.96, tud.14, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2109/2005 sy'n diwygio Rheoliad (EC) Rhif 716/96 sy'n mabwysiadu mesurau cynorthwyol eithriadol ar gyfer y farchnad cig eidion yn y Deyrnas Unedig, OJ Rhif L337, 22.12.2005, t.25.

declaration from a veterinary surgeon that it falls into one of those categories).

(3) In accordance with point 5 of Part I of Chapter A of Annex III to the Community TSE Regulation, the National Assembly may serve a notice on the occupier of a slaughterhouse requiring him or her to sample and send for testing in accordance with sub-paragraph (1) any bovine animal slaughtered there.

(4) The National Assembly must approve laboratories to test samples taken under this paragraph if it is satisfied that the laboratory-

- (a) will carry out the testing in accordance with Chapter C of Annex X to the Community TSE Regulation;
- (b) has adequate quality control procedures; and
- (c) has adequate procedures to ensure the correct identification of the samples and notification of the test results to the consigning slaughterhouse.

(5) In this paragraph "approved testing laboratory" means a laboratory approved under this paragraph or a laboratory in another part of the United Kingdom approved by the competent authority to carry out the test.

#### **Slaughter of bovine animals over 30 months of age**

4.-(1) It is an offence for the occupier to use a slaughterhouse to slaughter for human consumption a bovine animal aged over 30 months unless the National Assembly has approved the Required Method of Operation ("RMOP") for that slaughterhouse and that occupier.

(2) The RMOP must, as a minimum-

- (a) describe the procedures that will be followed to comply with Part I of this Schedule; and
- (b) describe all the systems and procedures specified in Part II of this Schedule.

(3) The National Assembly must approve the RMOP if it is satisfied that all the requirements of the Community TSE Regulation and these Regulations will be complied with, and the occupier must demonstrate this by means of an assessment of two days duration in which animals are slaughtered (using bovine animals under 30 months old unless the slaughterhouse is operating for the purposes of Commission Regulation (EC) No 716/96 adopting exceptional support measures for the beef market in the United Kingdom(1)).

---

(1) OJ No L99, 20.4.96, p.14, as last amended by Commission Regulation (EC) No. 2109/2005 amending Regulation (EC) No. 716/96 adopting exceptional support measures for the beef market in the United Kingdom, OJ No. L337, 22.12.2005, p.25.

(4) Os bydd gwartheg dros 30 mis oed yn cael eu cigyddu i'w bwyta gan bobl ac eithrio yn unol â'r DGW, mae meddiannydd y lladd-dy yn euog o drosedd.

### Cadw cynhyrchion a'u gwaredu

5.-(1) Mewn perthynas ag unrhyw wartheg sy'n cael eu samplu, mae'n rhaid i feddiannydd y lladd-dy, marchnad ledr neu danerdy, at ddibenion pwynt 6(3) o Ran I o Bennod A o Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned a hyd nes derbynnir canlyniad y prawf, naill ai-

- (a) gadw'r holl garcasau a phob rhan o'r corff (gan gynnwys y gwaed a'r croen) y bydd rhaid eu gwaredu os bydd y canlyniad yn positif; neu
- (b) eu gwaredu yn unol ag is-baragraff (2).

(2) At ddibenion pwyntiau 6(4) a 6(5) o'r Rhan honno, os derbynnir canlyniad positif ar gyfer anifail sydd wedi ei samplu, mae'n rhaid iddo ar unwaith waredu'r-

- (a) carcass a phob rhan o gorff yr anifail hwnnw (gan gynnwys y gwaed a'r croen); ac
- (b) oni bai bod rhanddirymiad wedi ei roi o dan bwynt 6(6) o'r Rhan honno, carcass a phob rhan o gorff (gan gynnwys y gwaed a'r croen) yr anifail yn union cyn yr anifail hwnnw ar y llinell gigydda a'r ddau anifail a oedd yn syth ar ei ôl,

yn unol â phwynt 6(4) o'r Rhan honno.

(3) Os nad oes sampl wedi cael ei anfon at labordy profi cymeradwy i gael ei brofi yn unol â pharagraff 3 o'r Atodlen hon, neu os derbynnir canlyniad dim-prawf, mewn perthynas ag anifail y mae'n ofynnol ei brofi o dan yr Atodlen hon, mae'n rhaid i'r meddiannydd ar unwaith waredu'r-

- (a) carcass a phob rhan o gorff (gan gynnwys gwaed a chroen) yr anifail hwnnw; ac
- (b) oni bai bod rhanddirymiad wedi ei roi o dan bwynt 6(6) o Ran I o Bennod A o Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned, carcass a phob rhan o gorff (gan gynnwys gwaed ond nid croen) yr anifail a oedd yn union cyn yr anifail hwnnw ar y llinell gigydda a'r ddau anifail a oedd yn syth ar ei ôl,

yn unol â phwynt 6(4) o'r Rhan honno; ac at ddiben y paragraff hwn ystyr "canlyniad dim-prawf" yw sampl y mae labordy profi cymeradwy wedi tystio na ellir ei brofi am unrhyw reswm.

(4) Gall y Cynulliad Cenedlaethol roi rhanddirymiad mewn ysgrifen o dan bwynt 6(6) o Ran I o Bennod A o Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned os yw wedi'i fodloni bod system wedi ei sefydlu sy'n atal halogiad rhwng carcassau.

(4) If a bovine animal aged over 30 months is slaughtered for human consumption other than in accordance with the RMOP, the occupier of the slaughterhouse is guilty of an offence.

### Retention of products and disposal

5.-(1) In relation to any sampled bovine animal, the occupier of a slaughterhouse, hide market or tannery must, for the purposes of point 6(3) of Part I of Chapter A of Annex III to the Community TSE Regulation and pending receipt of the test result, either-

- (a) retain all carcasses and all parts of the body (including the blood and the hide) that will have to be disposed of in the event of a positive result; or
- (b) dispose of them in accordance with sub-paragraph (2).

(2) For the purposes of points 6(4) and 6(5) of that Part, if a positive result is received for a sampled animal, he or she must immediately dispose of-

- (a) the carcass and all parts of the body of that animal (including the blood and the hide); and
- (b) unless a derogation has been granted under point 6(6) of that Part, the carcass and all parts of the body (including the blood and the hide) of the animal immediately preceding that animal on the slaughter line and the two animals immediately following it,

in accordance with point 6(4) of that Part.

(3) If no sample has been sent to an approved testing laboratory for testing in accordance with paragraph 3 of this Schedule, or if a no-test result is received, in respect of an animal required to be tested under this Schedule, the occupier must immediately dispose of-

- (a) the carcass and all parts of the body (including the blood and the hide) of that animal; and
- (b) unless a derogation has been granted under point 6(6) of Part I of Chapter A of Annex III to the Community TSE Regulation, the carcass and all parts of the body (including the blood but not the hide) of the animal immediately preceding that animal on the slaughter line and the two animals immediately following it,

in accordance with point 6(4) of that Part; and for the purposes of this sub-paragraph "no-test result" means a sample that an approved testing laboratory has certified cannot be tested for any reason.

(4) The National Assembly may grant in writing a derogation under point 6(6) of Part I of Chapter A of Annex III to the Community TSE Regulation if it is satisfied that there is a system in place that prevents contamination between carcasses.

(5) Mewn perthynas ag unrhyw ddefaid neu eifr sy'n cael eu samplu, mae'n rhaid i feddiannydd lladd-dy, marchnad ledr neu danerdy-

- (a) at ddibenion pwynt 7(3) o Ran II o Bennod A o Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned, gadw'r carcass a phob rhan o'r corff (gan gynnwys y gwaed a'r croen) hyd nes y derbynir canlyniad y prawf; ac
- (b) os bydd y canlyniad yn bositif, gwaredu'r carcass a phob rhan o'r corff ar unwaith (gan gynnwys y gwaed a'r croen) yn unol â phwynt 7(4) o'r Rhan honno.

(6) Yn y paragraff hwn gall pwerau arolygydd gael eu defnyddio hefyd gan berson a benodir felly mewn perthynas â marchnad ledr neu danerdy gan y Comisiwn Cig a Da Byw.

(7) Mae unrhyw berson sy'n peidio â chydymffurfio ag is-baragraffau (1) i (3) neu (5) yn euog o drosedd.

### **Iawndal**

6.-(1) Os bydd anifail sy'n cael ei gigydda i'w fwyta gan bobl yn cael canlyniad prawf positif, mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol dalu iawndal am garcas a phob rhan o gorff (gan gynnwys gwaed a chroen)-

- (a) yr anifail hwnnw; ac
- (b) os cânt eu dinistrio oherwydd y canlyniad positif, yr anifail yn union o'i flaen ar y llinell gigydda a'r ddau anifail yn syth ar ei ôl.

(2) Yn achos anifail lle ceir canlyniad dim-prawf (fel y disgrifiwyd ym mharagraff 5(3)) mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi gwybod i'r perchennog mewn ysgrifen a yw'n bwriadu talu iawndal am-

- (a) carcass a phob rhan o gorff (gan gynnwys gwaed a chroen) yr anifail hwnnw; ac
- (b) os cânt eu dinistrio oherwydd y canlyniad dim-prawf hwnnw, carcass a phob rhan o'r corff (gan gynnwys gwaed ond nid croen) yr anifail yn union o'i flaen ar y llinell gigydda a'r ddau anifail yn syth ar ei ôl,

gan roi'r rhesymau, ac mae'r weithdrefn apelio yn rheoliad 14 yn gymwys.

(3) Yr iawndal yw'r gwerth ar y farchnad, a sefydlwyd naill ai trwy gytundeb o dan y weithdrefn yn rheoliad 15, gyda'r ffi am enwebu'r prisiwr a ffi'r prisiwr yn cael ei dalu gan y meddiannydd.

(4) Nid yw iawndal yn daladwy mewn unrhyw achos arall.

(5) In relation to any sampled sheep or goat, the occupier of a slaughterhouse, hide market or tannery must-

- (a) for the purposes of point 7(3) of Part II of Chapter A of Annex III to the Community TSE Regulation, retain the carcass and all parts of the body (including the blood and the hide) pending receipt of the test result; and
- (b) in the event of a positive result, immediately dispose of the carcass and all parts of the body (including the blood and the hide) in accordance with point 7(4) of that Part.

(6) In this paragraph the powers of an inspector may also be exercised by a person appointed as such in relation to a hide market or tannery by the Meat and Livestock Commission.

(7) Any person who fails to comply with subparagraphs (1) to (3) or (5) is guilty of an offence.

### **Compensation**

6.-(1) If an animal slaughtered for human consumption tests positive, the National Assembly must pay compensation for the carcass and all parts of the body (including the blood and the hide) of-

- (a) that animal; and,
- (b) if they are destroyed because of that positive result, the animal immediately preceding it on the slaughter line and the two animals immediately following it.

(2) In the case of an animal for which a no-test result (as described in paragraph 5(3)) is received the National Assembly must inform the owner in writing whether it intends to pay compensation for-

- (a) the carcass and all parts of the body (including the blood and the hide) of that animal; and
- (b) if they are destroyed because of that no-test result, the carcass and all parts of the body (including the blood but not the hide) of the animal immediately preceding it on the slaughter line and the two animals immediately following it,

giving the reasons, and the appeals procedure in regulation 14 applies.

(3) The compensation is the market value, established either by agreement or under the procedure in regulation 15, with the fee for nominating the valuer and the valuer's fee paid by the occupier.

(4) Compensation is not payable in any other case.

## RHAN 2

Cynnwys Dull Gofynnol o Weithredu (DGW)

### Adnabod a gwahanu anifeiliaid

- 7.-(1) Mae'n rhaid i'r DGW ddisgrifio'r system sy'n-
- (a) galluogi anifeiliaid buchol a anwyd neu a fagwyd yn y Deyrnas Unedig cyn 1 Awst 1996 i gael eu hadnabod a sicrhau na chânt eu cigydda i'w bwyta gan bobl;
  - (b) galluogi anifeiliaid buchol dros 30 mis oed ond a anwyd ar 1 Awst 1996 neu ar ôl hynny i gael eu hadnabod a sicrhau eu bod yn cael eu samplu yn unol â'r Atodlen hon; a
  - (c) galluogi anifeiliaid buchol a nodwyd ym mhwynt 2(1) o Ran I o Bennod A o Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned i gael eu hadnabod a sicrhau eu bod yn cael eu samplu yn unol â'r Atodlen hon.

(2) Hefyd mae'n rhaid iddo ddisgrifio'r system sy'n sicrhau bod anifeiliaid dros 30 mis oed-

- (a) yn cael eu crynhoi at ei gilydd cyn eu cigydda ar wahân i'r rhai sy'n 30 mis oed neu'n llai; a'u
- (b) cigydda mewn llwythi ar wahân i'r rhai sy'n 30 mis oed neu'n llai.

### Samplu coesyn yr ymennydd

- 8.-(1) Mae'n rhaid i'r DGW ddangos bod-
- (a) digon o staff wedi'u hyfforddi ac yn gymwys i gymryd, labelu, pecynnu ac anfon allan samplau o goesyn yr ymennydd;
  - (b) cyfleusterau hylan ar gyfer samplu; a
  - (c) gweithdrefnau samplu sydd ddim yn peryglu hylendid cynhyrchu cig a fwriedir i'w fwyta gan bobl.

(2) Mae'n rhaid iddo ddisgrifio sut y byddir yn cydymffurfio â chanllawiau iechyd a diogelwch a gynlluniwyd i leihau'r risg o wneud staff yn agored i BSE yn ystod samplu a phecynnu coesyn yr ymennydd.

### Y cydberthyniad rhwng sampl a charcas a rhannau eraill o'r corff

9. Mae'n rhaid i'r DGW ddisgrifio'r system sy'n cysylltu sampl o goesyn yr ymennydd pob buwch dros 30 mis oed gyda sgerbwdd yr anifail hwnnw a phob rhan o gorff yr anifail hwnnw (gan gynnwys y gwaed a'r croen).

### Cadw carcasau

10.-(1) Mae'n rhaid i'r DGW ddisgrifio'r system sy'n sicrhau bod yr holl garcasau a gedwir yn unol â pharagraff 5(1) o'r Atodlen hon yn cael eu cadw yn

## PART 2

Contents of an RMOP

### Animal identification and separation

- 7.-(1) The RMOP must describe the system that-
- (a) enables bovine animals born or reared in the United Kingdom before 1 August 1996 to be identified and ensures that they are not slaughtered for human consumption;
  - (b) enables bovine animals over 30 months of age but born on or after 1 August 1996 to be identified and ensures that they are sampled in accordance with this Schedule; and
  - (c) enables bovine animals specified in point 2(1) of Part I of Chapter A of Annex III to the Community TSE Regulation to be identified and ensures that they are sampled in accordance with this Schedule.

(2) It must also describe the system that ensures that animals over 30 months of age are-

- (a) batched together before slaughter separately from those aged 30 months or under; and
- (b) slaughtered in batches separately from those aged 30 months or under.

### Brain stem sampling

- 8.-(1) The RMOP must show that there are -
- (a) sufficient staff trained and competent in the taking, labelling, packaging and dispatch of brain stem samples;
  - (b) hygienic facilities for sampling; and
  - (c) sampling procedures that do not jeopardise the hygienic production of meat intended for human consumption.

(2) It must describe how health and safety guidelines designed to minimise the risk of exposure of staff to BSE during brain stem sampling and packaging will be complied with.

### Correlation of sample to carcase and all other parts of the body

9. The RMOP must describe the system linking the brain stem sample of each bovine animal over 30 months of age to the carcase of that animal and all parts of the body of that animal (including the blood and the hide).

### Retention of carcasses

10.-(1) The RMOP must describe the system that ensures that all carcasses retained in accordance with paragraph 5(1) of this Schedule are retained in

nhrefn eu cigydda naill ai mewn uned oeri sydd wedi ei selio neu ei gloi neu sydd ar reilen sydd wedi ei selio neu ei chloi y tu mewn i uned oeri heb ei selio hyd nes derbynir canlyniad y prawf.

(2) Mae'n rhaid iddo ddisgrifio sut bydd y meddiannydd yn sicrhau bod digon o le addas yn yr uned oeri ar gyfer cadw sgerbydau at bwrpas yr Atodlen hon.

### **Cadw rhannau o'r corff**

**11.** Mae'n rhaid i'r DGW ddisgrifio'r system sy'n sicrhau y cedwir yr holl rannau o'r corff (gan gynnwys y gwaed a'r croen) yn unol â pharagraff 5(1) o'r Atodlen hon.

### **Gwaredu cyn derbyn y canlyniad**

**12.** Mae'n rhaid i'r DGW ddisgrifio'r llwybr gwaredu ar gyfer pob carcass a phob rhan o'r corff (gan gynnwys y gwaed a'r croen) a gadwyd hyd nes derbyn canlyniad y prawf ond a waredwyd cyn derbyn canlyniad y prawf.

### **Mesurau eraill yn dilyn samplu**

**13.** Mae'n rhaid i'r DGW ddisgrifio'r systemau sydd wedi eu sefydlu i sicrhau bod-

- (a) samplau o goesyn yr ymennydd yn cael eu pecynnu yn unol â chyfarwyddiadau pecynnu P650 o Gytundeb Ewrop ynglŷn â Chludiant Rhyngwladol Nwyddau Peryglus ar y Ffyrdd (y fersiwn yn gymwys o 1 Ionawr 2005)(1);
- (b) bod canlyniadau'r profion yn cael eu derbyn, naill ai drwy ffacs neu drwy ddulliau electronig eraill; ac
- (c) yn dilyn canlyniad positif neu ddim-prawf (fel y disgrifiwyd ym mharagraff 5(3)), bod popeth sy'n ofynnol i'w waredu yn unol â phwynt 6(4) neu 6(5) o Ran I o Bennod A o Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned neu o dan yr Atodlen hon yn cael ei adnabod a'i waredu yn unol â hynny.

### **Tynnu asgwrn y cefn**

**14.** Mae'n rhaid i'r DGW ddisgrifio'r system sy'n sicrhau, mewn achos lle y ceir canlyniad prawf negyddol ar gyfer anifail buchol-

- (a) nad yw'r rhannau hynny o asgwrn y cefn sy'n ddeunydd risg penodedig yn cael eu tynnu yn y lladd-dy; a
- (b) bod y cig sy'n cynnwys y deunydd risg penodedig hwnnw yn cael ei draddodi i safle torri a awdurdodwyd o dan baragraff 11 o Atodlen 6 i'w dynnu.

slaughter order either in a sealed or locked chiller or on a sealed or locked rail in an unsealed chiller pending the receipt of the test result.

(2) It must describe how the occupier will ensure that there is suitable and sufficient chiller space for retaining carcasses for the purposes of this Schedule.

### **Retention of parts of the body**

**11.** The RMOP must describe the system that ensures that all parts of the body (including the blood and the hide) are retained in accordance with paragraph 5(1) of this Schedule.

### **Disposal before receipt of the result**

**12.** The RMOP must describe the disposal route for all carcasses and all parts of the body (including the blood and the hide) retained pending receipt of a test result but disposed of before the test result is received.

### **Other measures following sampling**

**13.** The RMOP must describe the systems in place that ensure that-

- (a) brain stem samples are packaged in accordance with packaging instructions P650 of the European Agreement Concerning the International Carriage of Dangerous Goods by Road (version applicable as from 1st January 2005)(1);
- (b) test results are received, either by fax or by other electronic means; and
- (c) following a positive or a no-test result (as described in paragraph 5(3)), everything required to be disposed of in accordance with point 6(4) or 6(5) of Part I of Chapter A of Annex III to the Community TSE Regulation or under this Schedule is identified and disposed of accordingly.

### **Removal of vertebral column**

**14.** The RMOP must describe the system that ensures that, in the case of a bovine animal for which a negative test result has been received-

- (a) those parts of the vertebral column that are specified risk material are not removed in the slaughterhouse; and
- (b) the meat containing that specified risk material is consigned to a cutting plant authorised under paragraph 11 of Schedule 6 to remove it.

## Rheoliad 6

## Regulation 6

## Rheoli a dileu TSE mewn gwartheg

## Control and eradication of TSE in bovine animals

## CYNNWYS

## CONTENTS

1. Rheoli a dileu TSE - hysbysiad
2. Cyfyngu ar anifail y rhoddwyd hysbysiad yn ei gylch
3. Cigydda anifail sydd dan amheuaeth
4. Adnabod a chyfyngu ar epil a chohortau
5. Camau gweithredu yn dilyn cadarnhad
6. Marwolaeth tra o dan gyfyngiadau
7. Rhoi epil gwartheg ar y farchnad

1. Control and eradication of TSE - notification
2. Restriction of a notified animal
3. Slaughter of a suspect animal
4. Identification and restriction of offspring and cohorts
5. Action following confirmation
6. Death while under restriction
7. Placing on the market of bovine progeny

**Rheoli a dileu TSE - hysbysiad**

1.-(1) At ddibenion Erthygl 11 o Reoliad TSE y Gymuned, mae'n rhaid i unrhyw berson sydd ag unrhyw anifail buchol yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth sydd dan amheuaeth o fod wedi ei heffeithio gan TSE hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith a'i chadw ar y safle hyd nes y bydd wedi cael ei harchwilio gan arolygydd milfeddygol.

(2) Rhaid i unrhyw filfeddyg sy'n archwilio unrhyw anifail o'r fath, hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn gynted ag sy'n ymarferol bosib.

(3) Rhaid i unrhyw berson (ar wahân i'r Cynulliad Cenedlaethol) sy'n archwilio corff unrhyw anifail buchol neu unrhyw ran ohono, mewn labordy ac sy'n amau'n rhesymol bod TSE yn bresennol hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol, a chadw'r corff ac unrhyw rannau ohono hyd nes y bydd arolygydd milfeddygol wedi awdurdodi ei waredu.

(4) Mae peidio â chydymffurfio â'r paragraff hwn yn drosedd.

**Cyfyngu ar anifail y rhoddwyd hysbysiad yn ei gylch**

2. Os rhoddir hysbysiad am anifail o dan baragraff 1 gall arolygydd roi hysbysiad yn gwahardd ei symud o'r safle hyd nes y ceir penderfyniad a yw dan amheuaeth o fod wedi ei effeithio gan BSE neu beidio.

**Cigydda anifail sydd dan amheuaeth**

3.-(1) At ddibenion paragraffau (1) a (2) o Erthygl 12 o Reoliad TSE y Gymuned, os yw arolygydd milfeddygol yn amau bod anifail buchol wedi cael ei effeithio gan BSE, mae'n rhaid iddo naill ai-

- (a) ei ladd ar y daliad ar unwaith;
- (b) tynnu'r pasbort gwartheg yn ôl a rhoi

**Control and eradication of TSE - notification**

1.-(1) For the purposes of Article 11 of the Community TSE Regulation, any person who has in his or her possession or under his or her control any bovine animal suspected of being affected by a TSE must immediately notify the National Assembly and detain it on the premises until it has been examined by a veterinary inspector.

(2) Any veterinary surgeon who examines or inspects any such animal must, with all practical speed, notify the National Assembly.

(3) Any person (other than the National Assembly) who examines the body of any bovine animal, or any part of it, in a laboratory and who reasonably suspects the presence of a TSE must immediately notify the National Assembly, and retain the body and any parts of it until a veterinary inspector has authorised disposal.

(4) Failure to comply with this paragraph is an offence.

**Restriction of a notified animal**

2. If an animal is notified under paragraph 1 an inspector may serve a notice prohibiting its movement from the premises pending determination of whether or not it is suspected of being affected with BSE.

**Slaughter of a suspect animal**

3.-(1) For the purposes of paragraphs (1) and (2) of Article 12 of the Community TSE Regulation, if a veterinary inspector suspects that a bovine animal is affected with BSE, he or she must either-

- (a) kill it on the holding immediately;
- (b) remove its cattle passport and serve a notice

hysbysiad yn gwahardd symud yr anifail o'r daliad hyd nes y bydd wedi ei ladd; neu

- (c) sicrhau bod ei basbort gwartheg wedi ei stampio "Not for human consumption" a rhoi hysbysiad yn cyfarwyddo'r perchennog i'w anfon i safle arall i'w gael ei ladd a gwahardd symud ar wahân i symud yn unol â'r cyfarwyddyd hwnnw.

(2) Mae'n rhaid iddo gyfyngu ar symud anifeiliaid buchol eraill o'r daliad yn unol â'r ail a'r pedwerydd paragraff o Erthygl 12(1) o Reoliad TSE y Gymuned ac Erthygl 2(1)(a) o Benderfyniad y Comisiwn 2005/598/EC.

(3) Yn unol ag Erthygl 12(3) o Reoliad TSE y Gymuned, os caiff yr anifail ei ladd ar y daliad, mae'n drosedd symud y corff o'r daliad hwnnw ac eithrio yn unol â chyfarwyddyd ysgrifenedig gan arolygydd.

(4) Os na chaiff yr anifail ei ladd ar unwaith, mae'n rhaid i'r ceidwad gael gwared â'i laeth mewn ffordd fel na ellir ei fwyta gan bobl nac anifeiliaid ar wahân i'w llo ei hun neu anifeiliaid a gedwir at bwrpas ymchwil, ac mae peidio â chydymffurfio â'r is-baragraff hwn yn drosedd.

#### **Adnabod a chyfyngu ar epil a chohortau**

4.-(1) Yn unol ag Erthyglau 12(1) a 13(2) o Reoliad TSE y Gymuned, os bydd-

- (a) arolygydd milfeddygol yn amau bod anifail buchol wedi ei effeithio gan BSE;
- (b) monitro carcarau o dan Atodlen 2 neu o dan Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned yn cadarnhau bod anifail dan amheuaeth o fod wedi'i effeithio gan BSE; neu
- (c) awdurdod cymwys mewn rhan arall o'r Deyrnas Unedig neu aelod-wladwriaeth arall yn hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol bod buwch dan amheuaeth o fod wedi'i heffeithio gan BSE,

rhaid i arolygydd adnabod-

- (a) (os yw'r anifail sydd dan amheuaeth yn fenyw) holl epil yr anifail a anwyd o fewn dwy flynedd cyn cychwyn clinigol y clefyd neu o fewn dwy flynedd ar ôl hynny; a
- (b) phob un o'i gohortau buchol a anwyd ar neu ar ôl 1 Awst 1996,

ac i'r dibenion hyn dyddiad geni'r anifail yw'r un sydd wedi ei ddangos ar ei basbort gwartheg.

(2) Mae'n rhaid i arolygydd roi hysbysiadau yn gwahardd symud yr anifeiliaid hynny o'r daliad lle maent yn cael eu cadw neu lle mae'n amau eu bod yn cael eu cadw (boed yr un daliad â daliad yr anifail sydd dan amheuaeth neu beidio) a thynnu eu pasbort gwartheg.

prohibiting the animal from being moved from the holding until it has been killed; or

- (c) ensure that its cattle passport is stamped "Not for human consumption" and serve a notice directing the owner to consign it to other premises for killing and prohibiting movement other than in accordance with that direction.

(2) He or she must restrict the movement of other bovine animals from the holding in accordance with the second and fourth paragraphs of Article 12(1) of the Community TSE Regulation and Article 2(1)(a) of Commission Decision 2005/598/EC.

(3) In accordance with Article 12(3) of the Community TSE Regulation, if the animal is killed on the holding, it is an offence to remove the body from that holding except in accordance with a written direction from an inspector.

(4) If the animal is not killed immediately, its keeper must dispose of its milk in such a way that it cannot be consumed by humans or animals except its own calf or animals kept for research purposes, and failure to comply with this sub-paragraph is an offence.

#### **Identification and restriction of offspring and cohorts**

4.-(1) In accordance with Articles 12(1) and 13(2) of the Community TSE Regulation, if-

- (a) a veterinary inspector suspects that a bovine animal is affected with BSE;
- (b) the monitoring of carcasses under Schedule 2 or under Annex III to the Community TSE Regulation confirms that an animal is suspected of being affected with BSE; or
- (c) the competent authority of another part of the United Kingdom or another member State notifies the National Assembly that a bovine animal is suspected of being affected with BSE,

an inspector must identify-

- (i) (if the suspect animal is female) all its offspring born within two years prior to, or after clinical onset of the disease; and
- (ii) all its bovine cohorts born on or after 1 August 1996,

and for these purposes the animal's date of birth is the one shown on its cattle passport.

(2) An inspector must serve notices prohibiting movement of those animals from the holding on which they are kept or where he or she suspects they may be kept (whether or not this is the same holding as that of the suspect animal) and remove their cattle passports.

(3) Os nad yw ef neu hi yn gallu adnabod yr anifeiliaid yn is-baragraff (1) ar unwaith mae'n rhaid i arolygydd wahardd symud pob anifail buchol o'r daliad hyd nes y cânt eu hadnabod.

(4) Ni chaniateir symud anifeiliaid dan gyfyngiadau ac eithrio yn unol â rheoliad 20.

### Camau gweithredu yn dilyn cadarnhad

5.-(1) Yn unol ag Erthygl 13(1)(c) o Atodiad VII a phwynt 2 ohono, i Reoliad TSE y Gymuned, os caiff ei gadarnhau bod yr anifail sydd dan amheuaeth wedi'i effeithio gan BSE mae'n rhaid i arolygydd-

- (a) ladd pob un o'i hepil a anwyd o fewn dwy flynedd cyn cychwyn clinigol y clefyd neu o fewn dwy flynedd ar ôl hynny, os yw'r anifail yn fenyw; ac
- (b) ym mhob achos, lladd pob un o'r anifeiliaid buchol yn ei gohort a anwyd ar neu ar ôl 1 Awst 1996 ac eithrio lle-
  - (i) bod yr arolygydd wedi'i fodloni nad oedd gan yr anifail fynediad i'r un bwyd â'r anifail yr effeithiwyd arno; neu
  - (ii) bod yr anifail yn darw sy'n cael ei gadw mewn canolfan casglu semen, ac ni fydd yn cael ei symud oddi yno, ond mae'n drosedd symud yr anifail o'r ganolfan ac eithrio i gael ei ladd, a phan gaiff ei ladd mae'r perchennog yn cyflawni trosedd oni bai ei fod yn sicrhau bod y carcass wedi ei ddiinstrio'n llwyr.

(2) Os na chaiff yr anifail ei ladd ar y daliad, mae'n rhaid i'r arolygydd sicrhau fod ei basbort wedi ei stampio "Not for human consumption" a rhaid iddo gyfarwyddo'r perchennog mewn ysgrifedig i'w anfon i safle arall i gael ei ladd fel y nodwyd yn y cyfarwyddiad.

(3) Os bydd y prawf yn negyddol mae'n rhaid iddo dynnu'r holl gyfyngiadau a osodwyd oherwydd yr anifail a oedd dan amheuaeth a dychwelyd y pasbort gwartheg.

(4) Pan gaiff anifail ei ladd o dan y rheoliad hwn, mae'n drosedd i symud y carcass oddi ar y safle lle cafodd ei ladd ac eithrio yn unol â chyfarwyddyd ysgrifenedig oddi wrth arolygydd.

### Marwolaeth tra o dan gyfyngiad

6. Os bydd anifail yn marw neu'n cael ei ladd tra ei fod o dan gyfyngiad am unrhyw reswm o dan yr Atodlen hon, mae'n rhaid i'r perchennog hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith, a chadw'r corff ar y safle hyd nes y bydd wedi cael ei gyfarwyddo'n ysgrifenedig gan arolygydd i'w symud neu ei waredu, ac mae'n drosedd peidio â chydymffurfio â'r paragraff hwn neu beidio â chydymffurfio gyda'r cyfarwyddyd o dan y paragraff hwn.

(3) If he or she cannot immediately identify the animals in sub-paragraph (1) an inspector must prohibit the movement of all bovine animals from the holding pending identification.

(4) Movements of restricted animals are only permitted in accordance with regulation 20.

### Action following confirmation

5.-(1) In accordance with Article 13(1)(c) of, and point 2 of Annex VII to, the Community TSE Regulation, if it is confirmed that the suspect animal was affected with BSE an inspector must-

- (a) if the animal is female, kill all its offspring born within two years prior to, or after clinical onset of the disease; and
- (b) in all cases, kill all the bovine animals in its cohort born on or after 1 August 1996 except where-
  - (i) he or she is satisfied that the animal did not have access to the same feed as the affected animal; or
  - (ii) the animal is a bull that is kept at, and will not be removed from, a semen collection centre, but it is an offence to remove the animal from the centre except to be killed, and when it is killed the owner commits an offence unless he or she ensures that the carcass is completely destroyed.

(2) If the animal is not killed on the holding, an inspector must ensure that its passport is stamped "Not for human consumption" and must direct the owner in writing to consign it to other premises for killing as specified in the direction.

(3) If the test is negative he or she must remove all restrictions imposed because of the suspect animal and return the cattle passports.

(4) When an animal is killed under this regulation, it is an offence to remove the carcass from the premises on which it was killed except in accordance with a written direction from an inspector.

### Death while under restriction

6. If any animal dies or is killed while it is under restriction for any reason under this Schedule, the owner must immediately notify the National Assembly, and retain the body on the premises until he or she is directed in writing to move or dispose of it by an inspector, and it is an offence not to comply with this paragraph or to fail to comply with a direction under it.



**Rhoi epil buchol ar y farchnad**

7. Mae unrhyw berson sy'n rhoi unrhyw anifail buchol ar y farchnad yn groes i Erthygl 15(2) o Reoliad TSE y Gymuned a Phennod B o Atodiad VIII i'r Rheoliad hwnnw yn euog o drosedd.

**Placing on the market of bovine progeny**

7. Any person who places on the market any bovine animal in contravention of Article 15(2) of the Community TSE Regulation and Chapter B of Annex VIII to that Regulation is guilty of an offence.

## Rheoliad 7

## Regulation 7

Rheoli a dileu TSE mewn defaid a geifr

Control and eradication of TSE in sheep and goats

## CYNNWYS

## CONTENTS

- |  |   |
|--|---|
| <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Hysbysiad TSE</li> <li>2. Cyfyngu ar anifail y gwnaethpwyd hysbysiad yn ei gylch</li> <li>3. Cigydda anifail sydd dan amheuaeth</li> <li>4. Cyfyngiadau symud</li> <li>5. Camau gweithredu lle nad yw TSE wedi ei gadarnhau</li> <li>6. Cadarnhau TSE mewn defaid</li> <li>7. Cadarnhau TSE mewn geifr</li> <li>8. Cadarnhau BSE mewn defaid neu eifr</li> <li>9. Amser apelio</li> <li>10. Lladd a dinistrio yn dilyn cadarnhad</li> <li>11. Anifeiliaid wedi eu heintio o ddaliad arall</li> <li>12. Pori tir comin</li> <li>13. Aml ddiadellau ar ddaliad</li> <li>14. Meddianwyr dilynol</li> <li>15. Cyflwyno anifeiliaid i ddaliad</li> <li>16. Defnyddio cynhyrchion cenedllool defaid</li> <li>17. Symud anifeiliaid o ddaliad</li> <li>18. Amser cyfyngiadau symud</li> <li>19. Marwolaeth tra o dan gyfyngiad</li> <li>20. Rhoi epil defaid a geifr sydd wedi eu heffeithio gan BSE ar y farchnad</li> <li>21. Hysbysiad tra bo daliad o dan gyfyngiad</li> <li>22. Rhanddirymiadau</li> </ol> | <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Notification of TSE</li> <li>2. Restriction of a notified animal</li> <li>3. Slaughter of a suspect animal</li> <li>4. Movement restrictions</li> <li>5. Action where TSE is not confirmed</li> <li>6. Confirmation of TSE in sheep</li> <li>7. Confirmation of TSE in goats</li> <li>8. Confirmation of BSE in sheep or goats</li> <li>9. Time for appeals</li> <li>10. Killing and destruction following confirmation</li> <li>11. Infected animals from another holding</li> <li>12. Common grazing</li> <li>13. Multiple flocks on a holding</li> <li>14. Subsequent occupiers</li> <li>15. Introduction of animals onto a holding</li> <li>16. Use of ovine germinal products</li> <li>17. Movement of animals from a holding</li> <li>18. Time of movement restrictions</li> <li>19. Death while under restriction</li> <li>20. Placing on the market of progeny of BSE affected sheep and goats</li> <li>21. Notification while the holding is under restriction</li> <li>22. Derogations</li> </ol> |
|--|---|

**Hysbysiad o TSE**

1.-(1) At bwrpas Erthygl 11 o Reoliad TSE y Gymuned, mae'n rhaid i unrhyw berson sydd â dafad neu afr yn ei feddiant neu o dan ei reolaeth sydd dan amheuaeth o fod wedi cael ei effeithio gan TSE hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol a'i gadw ar y safle hyd nes y bydd wedi ei archwilio gan arolygydd milfeddygol.

(2) Bydd rhaid i unrhyw filfeddyg sy'n archwilio neu'n arolygu unrhyw anifail o'r fath, hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(3) Mae'n rhaid i unrhyw berson (ar wahân i'r Cynulliad Cenedlaethol) sy'n archwilio corff unrhyw ddafad neu afr, neu unrhyw ran ohono, mewn labordy ac sy'n amau yn rhesymol bresenoldeb TSE hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith, a chadw'r corff ac unrhyw rannau ohono hyd nes y bydd arolygydd milfeddygol wedi awdurdodi ei waredu.

**Notification of TSE**

1.-(1) For the purposes of Article 11 of the Community TSE Regulation, any person who has in his or her possession or under his or her control any sheep or goat suspected of being affected with a TSE must immediately notify the National Assembly and detain it on the premises until it has been examined by a veterinary inspector.

(2) Any veterinary surgeon who examines or inspects any such animal must, with all practical speed, notify the National Assembly.

(3) Any person (other than the National Assembly) who examines the body of any sheep or goat, or any part of it, in a laboratory and who reasonably suspects the presence of a TSE must immediately notify the National Assembly, and retain the body and any parts of it until a veterinary inspector has authorised disposal.

(4) Mae peidio â chydymffurfio â'r paragraff hwn yn drosedd.

### **Cyfyngu ar anifail y rhoddwyd hysbysiad yn ei gylch**

2.-(1) Os rhoddir hysbysiad am anifail o dan baragraff 1, hyd nes y ceir penderfyniad a ydyw dan amheuaeth neu beidio o fod wedi'i effeithio gyda TSE, gall arolygydd milfeddygol roi hysbysiad yn gwahardd symud yr anifail hwnnw o'i ddaliad, ac yn gwahardd symud unrhyw ddefaid neu eifr eraill i'r daliad neu oddi ar y daliad hwnnw.

(2) Ni chaniateir symud anifeiliaid dan gyfyngiadau ac eithrio yn unol â rheoliad 20.

### **Cigydda anifail sydd dan amheuaeth**

3.-(1) At ddibenion paragraffau (1) a (2) o Erthygl 12 o Reoliad TSE y Gymuned, os bydd arolygydd milfeddygol yn amau bod dafad neu afr wedi cael ei effeithio gan TSE, mae'n rhaid iddo naill ai-

- (a) ei ladd ar y daliad ar unwaith;
- (b) rhoi hysbysiad yn gwahardd symud yr anifail o'r daliad hyd nes y bydd wedi cael ei ladd; neu
- (c) rhoi hysbysiad yn cyfarwyddo'r perchennog i'w draddodi i safle arall i'w ladd a gwahardd symud ac eithrio yn unol â'r cyfarwyddyd hwnnw.

(2) Yn unol ag Erthygl 12(3) o Reoliad TSE y Gymuned, os caiff yr anifail ei ladd ar y daliad, mae'n drosedd symud y corff o'r daliad ac eithrio yn unol â chyfarwyddyd ysgrifenedig gan arolygydd.

### **Cyfyngiadau symud**

4.-(1) At ddibenion pwynt 3 o Atodiad VII i Reoliad TSE y Gymuned, ac Erthygl 12(1) o'r Rheoliad hwnnw, yn dilyn amheuaeth am TSE (boed mewn anifail byw neu drwy'r monitro o dan Atodiad Annex III i Reoliad TSE y Gymuned), mae'n rhaid i arolygydd-

- (a) roi hysbysiad-
  - (i) yn gwahardd symud i'w daliad neu oddi ar ei daliad unrhyw ddafad neu afr ar yr un daliad â'r anifail sydd dan amheuaeth os yw o'r farn bod yr anifail wedi bod yn agored i TSE ar y daliad hwnnw; neu
  - (ii) os daeth yr anifail o ddaliad arall, a'i fod o'r farn y gall yr anifail fod wedi bod yn agored i TSE ar y daliad hwnnw, gall roi hysbysiad naill ai i'r daliad hwnnw ac i'r un daliad â'r anifail sydd dan amheuaeth, neu dim ond i'r daliad a oedd yn agored i TSE; a

(4) Failure to comply with this paragraph is an offence.

### **Restriction of a notified animal**

2.-(1) If an animal is notified under paragraph 1, pending determination of whether or not it is suspected of being affected with a TSE, a veterinary inspector may serve a notice prohibiting the movement of that animal from its holding, and the movement of any other sheep or goat on to or from that holding.

(2) Movements of restricted animals are only permitted in accordance with regulation 20.

### **Slaughter of a suspect animal**

3.-(1) For the purposes of paragraphs (1) and (2) of Article 12 of the Community TSE Regulation, if a veterinary inspector suspects that a sheep or goat is affected with a TSE, he or she must either-

- (a) kill it on the holding immediately;
- (b) serve a notice prohibiting the animal from being moved from the holding until it has been killed; or
- (c) serve a notice directing the owner to consign it to other premises for killing and prohibiting movement other than in accordance with that direction.

(2) In accordance with Article 12(3) of the Community TSE Regulation, if the animal is killed on the holding, it is an offence to remove the body from the holding except in accordance with a written direction from an inspector.

### **Movement restrictions**

4.-(1) For the purposes of point 3 of Annex VII to the Community TSE Regulation, and Article 12(1) of that Regulation, following suspicion of a TSE (whether in a live animal or through the monitoring under Annex III to the Community TSE Regulation), an inspector-

- (a) must serve a notice-
  - (i) prohibiting the movement on to or from its holding of any sheep or goat on the same holding as the suspect animal if he or she considers that the animal was exposed to a TSE on that holding; or
  - (ii) if the animal came from another holding, and he or she considers that the animal may have been exposed to a TSE on that holding, may serve such a notice either on that holding and on the same holding as the suspect animal, or only the holding of exposure; and

- (b) rhoi hysbysiad yn gwahardd symud i ddaliad neu oddi ar ddaliad lle cedwir anifail a nodir ym mhwynt 1(b) o Atodiad VII i Reoliad TSE y Gymuned neu lle mae'n amau y cedwir anifail o'r fath.

(2) Ni chaniateir symud anifeiliaid dan gyfyngiad ac eithrio yn unol â rheoliad 20.

### **Camau gweithredu lle nad yw TSE wedi cael ei gadarnhau**

5. Os caiff ei gadarnhau nad oedd yr anifail wedi cael ei effeithio gan TSE, mae'n rhaid i'r arolygydd dynnu'n ôl yr holl gyfyngiadau a roddwyd oherwydd yr anifail a oedd dan amheuaeth.

### **Cadarnhau TSE mewn defaid**

6.-(1) Os caiff ei gadarnhau bod dafad sydd dan amheuaeth, neu gorrff dafad a gafodd ei monitro o dan Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned, wedi cael ei heffeithio gan TSE, mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, ar ôl-

- (a) cynnal ymchwiliad a nodwyd yn Erthygl 13(1)(b) o Reoliad TSE y Gymuned ac ym mhwynt 1(b) o Atodiad VII i'r Rheoliad hwnnw; a
- (b) samplu'r anifeiliaid i sefydlu eu genoteip (os oes angen),

benderfynu pa un o'r dewisiadau sydd wedi eu nodi ym mhwyntiau 2(b)(i) a (ii) o Atodiad VII i Reoliad TSE y Gymuned y mae'n bwriadu ei ymarfer.

(2) Mae'n rhaid i'r Cynulliad wedyn roi hysbysiad i feddiannydd y daliad yn rhoi gwybod iddo pa un o'r dewisiadau yn y paragraffau hynny y mae'n bwriadu ei arfer.

- (3) Mae'n rhaid i'r hysbysiad nodi-
  - (a) yr anifeiliaid sydd i'w lladd neu eu dinistrio;
  - (b) yr anifeiliaid (os oes rhai) sydd i'w cigyddu i'w bwyta gan bobl;
  - (c) yr anifeiliaid a fydd yn cael eu cadw (os oes rhai);
  - (ch) unrhyw ofwm neu embryo sydd i'w ddinistrio;
  - (d) yr amserlen ar gyfer cydymffurfio â'r hysbysiad; a'r
  - (dd) hawl i wneud cais am randdirymiad yn unol â pharagraff 22(2).

(4) Mae'r drefn apelio yn rheoliad 14 yn gymwys.

### **Cadarnhau TSE mewn geifr**

7.-(1) Os caiff ei gadarnhau bod gafr sydd dan amheuaeth, neu gorrff gafr a gafodd ei monitro o dan

- (b) must serve a notice prohibiting movement on to or from a holding where an animal specified in point 1(b) of Annex VII to the Community TSE Regulation is kept or where he suspects such an animal is kept.

(2) Movements of restricted animals are only permitted in accordance with regulation 20.

### **Action where TSE is not confirmed**

5. If it is confirmed that the animal was not affected with a TSE, the inspector must remove all restrictions imposed because of the suspect animal.

### **Confirmation of TSE in sheep**

6.-(1) If it is confirmed that a suspect sheep, or a body of a sheep monitored under Annex III to the Community TSE Regulation, is affected with a TSE, the National Assembly, after-

- (a) carrying out the inquiry specified in Article 13(1)(b) of the Community TSE Regulation and in point 1(b) of Annex VII to that Regulation; and
- (b) sampling the animals to establish their genotype (if this is necessary),

must decide which of the options set out in points 2(b)(i) and (ii) of Annex VII to the Community TSE Regulation it intends to exercise.

(2) It must then serve a notice on the occupier of the holding informing him or her of which of the options in those paragraphs it intends to exercise.

- (3) The notice must specify-
  - (a) the identity of the animals to be killed and destroyed;
  - (b) the identity of the animals (if any) to be slaughtered for human consumption;
  - (c) the identity of the animals (if any) that may be retained;
  - (d) the identity of any ovum or embryo to be destroyed;
  - (e) the time limit for complying with the notice; and
  - (f) the right to apply for a derogation in accordance with paragraph 22(2).

(4) The appeals procedure in regulation 14 applies.

### **Confirmation of TSE in goats**

7.-(1) If it is confirmed that a suspect goat, or a body of a goat monitored under Annex III to the Community

Atodiad III i Reoliad TSE y Gymuned, wedi cael eu heffeithio gan TSE, mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, ar ôl cynnal yr ymchwiliad a nodwyd yn Erthygl 13(1)(b) o'r Rheoliad hwnnw ac ym mhwynt 1(b) o Atodiad VII i'r Rheoliad hwnnw, roi hysbysiad i feddiannydd y daliad yn rhoi gwybod iddo ei bod yn bwriadu lladd neu ddinistrio'r holl eifr ar y daliad a'r holl embryonau ac ofa o'r anifeiliaid hynny yn unol ag Erthygl 13(1)(c) o, a phwynt 2(b)(i) o Atodiad VII i'r Rheoliad hwnnw.

(2) Mae'r drefn apelio yn rheoliad 14 yn gymwys.

### **Cadarnhau BSE mewn defaid neu eifr**

8.-(1) Os caiff BSE ei gadarnhau mewn dafad neu afr ar ddaliad, mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, ar ôl cynnal yr ymchwiliad a nodir yn Erthygl 13(1)(b) o Reoliad TSE y Gymuned a phwynt 1 o Atodiad VII i'r Rheoliad hwnnw, roi hysbysiad i feddiannydd y daliad yn rhoi gwybod iddo o'i fwriad i ladd neu ddinistrio'r anifeiliaid, yr embryonau a'r ofa yn unol ag Erthygl 13(1)(c) o, a phwynt 2(c) o Atodiad VII i'r Rheoliad hwnnw.

(2) Mae'r drefn apelio yn rheoliad 14 yn gymwys.

### **Amser i apelio**

9. Ni chaiff y Cynulliad Cenedlaethol ladd unrhyw ddafad neu afr, na dinistrio unrhyw ofwm neu embryo, o dan yr Atodlen hon hyd nes-

- (a) ei fod wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig oddi wrth y person sydd wedi cael ei hysbysu nad yw'r person hwnnw yn bwriadu mynd i apêl;
- (b) ar ôl cwblhau'r cyfnod 21 diwrnod i apelio o dan reoliad 14; neu
- (c) os oes apêl, bod yr apêl yn cael ei phenderfynu neu ei thynnu'n ôl.

### **Lladd a dinistrio ar ôl cadarnhad**

10.-(1) Mae'n rhaid i arolygydd sicrhau bod yr holl anifeiliaid a nodir i'w lladd yn yr hysbysiad ym mharagraffau 6(2), 7(1) neu 8(1) yn cael eu lladd a bod yr holl ofa ac embryonau a nodwyd i'w dinistrio yn yr hysbysiad yn cael eu dinistrio.

(2) Os nad yw anifail yn cael ei ladd yn y daliad, mae'n rhaid i arolygydd gyfarwyddo'r perchennog mewn ysgrifen i'w draddodi i safle arall i gael ei ladd fel y nodir yn y cyfarwyddyd.

(3) Pan fydd anifail wedi cael ei ladd o dan y paragraff hwn, mae'n drosedd i symud y corff o'r safle lle cafodd ei ladd ac eithrio yn unol â chyfarwyddyd ysgrifenedig gan arolygydd.

TSE Regulation, is affected with TSE, the National Assembly, after carrying out the inquiry specified in Article 13(1)(b) of that Regulation and in point 1(b) of Annex VII to that Regulation, must serve a notice on the occupier of the holding informing him or her that it intends to kill and destroy all the goats on the holding and all embryos and ova from those animals in accordance with Article 13(1)(c) of, and point 2(b)(i) of Annex VII to that Regulation.

(2) The appeals procedure in regulation 14 applies.

### **Confirmation of BSE in sheep or goats**

8.-(1) If BSE is confirmed in a sheep or goat on a holding, the National Assembly, after carrying out the inquiry specified in Article 13(1)(b) of the Community TSE Regulation and point 1 of Annex VII to that Regulation, must serve a notice on the occupier of the holding informing him or her of its intention to kill and destroy the animals, embryos and ova in accordance with Article 13(1)(c) of, and point 2(c) of Annex VII to that Regulation.

(2) The appeals procedure in regulation 14 applies.

### **Time for appeals**

9. The National Assembly must not kill any sheep or goat, or destroy any ovum or embryo, under this Schedule until-

- (a) it has received written notification from the person on whom the notice is served that that person has no intention to proceed with an appeal;
- (b) after the 21 day period for appeal under regulation 14 is completed; or
- (c) if there is an appeal, the appeal is determined or withdrawn.

### **Killing and destruction following confirmation**

10.-(1) An inspector must ensure that all the animals specified for killing in the notice in paragraphs 6(2), 7 or 8 are killed and that all the ova and embryos specified for destruction in the notice are destroyed.

(2) If an animal is not killed on the holding, an inspector must direct the owner in writing to consign it to other premises for killing as specified in the direction.

(3) When an animal has been killed under this paragraph, it is an offence to remove the body from the premises on which it was killed except in accordance with a written direction from an inspector.

### **Anifeiliaid wedi'u heintio o ddaliad arall**

11. At ddibenion pwynt 2(b)(iii) o Atodiad VII i Reoliad TSE y Gymuned, os cafodd yr anifail heintiedig ei gyflwyno o ddaliad arall, gall y Cynulliad Cenedlaethol weithredu yn unol â'r Atodlen hon mewn perthynas â daliad y tarddiad yn ogystal â'r daliad lle cadarnhawyd yr haint neu yn lle'r daliad hwnnw.

### **Pori tir comin**

12. Yn achos anifeiliaid heintiedig ar dir pori comin, gall y Cynulliad Cenedlaethol gyfyngu hysbysiad o dan baragraffau 6(2) neu 7(1) i ddiadell unigol yn unol â phwynt 2(b)(iii) o Atodiad VII i Reoliad TSE y Gymuned.

### **Nifer o ddiadellau ar ddaliad**

13. Lle cedwir mwy nag un ddiadell ar un daliad, gall y Cynulliad Cenedlaethol gyfyngu hysbysiad o dan baragraffau 6(2) neu 7(1) i ddiadell unigol yn unol â phwynt 2(b)(iii) o Atodiad VII i Reoliad TSE y Gymuned.

### **Meddiannwyr dilynol**

14. Os oes newid ym meddiant y daliad, mae'n rhaid i'r meddiannydd blaenorol sicrhau bod y meddiannydd dilynol yn gwybod am fodolaeth a chynnwys unrhyw hysbysiad a roddwyd o dan yr Atodlen hon, ac mae peidio â gwneud hynny yn drosedd.

### **Cyflwyno anifeiliaid i ddaliad**

15. Mae unrhyw berson sy'n cyflwyno anifail i ddaliad yn groes i bwynt 4 o Atodiad VII i Reoliad TSE y Gymuned yn euog o drosedd.

### **Defnyddio cynnyrch cenhedlol defaid**

16. Mae unrhyw berson sy'n defnyddio cynnyrch cenhedlol defaid yn groes i bwynt 5 o Atodiad VII i Reoliad TSE y Gymuned yn euog o drosedd.

### **Symud anifeiliaid o ddaliad**

17. Mae unrhyw berson sy'n symud anifail o ddaliad yn groes i bwynt 7 o Atodiad VII i Reoliad TSE y Gymuned yn euog o drosedd.

### **Cyfyngiadau amser symud**

18. At ddibenion pwynt 8 o Atodiad VII i Reoliad TSE y Gymuned mae'n rhaid i'r dyddiadau perthnasol gael eu sefydlu gan y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig o'r dyddiadau hynny i feddiannydd y daliad.

### **Infected animals from another holding**

11. For the purposes of point 2(b)(iii) of Annex VII to the Community TSE Regulation, if the infected animal was introduced from another holding, the National Assembly may act in accordance with this Schedule in relation to the holding of origin in addition to, or instead of, the holding on which infection was confirmed.

### **Common grazing**

12. In the case of infected animals on common grazing, the National Assembly may limit a notice under paragraphs 6(2) or 7(1) to an individual flock in accordance with point 2(b)(iii) of Annex VII to the Community TSE Regulation.

### **Multiple flocks on a holding**

13. Where more than one flock is kept on a single holding, the National Assembly may limit a notice under paragraphs 6(2) or 7(1) to an individual flock in accordance with point 2(b)(iii) of Annex VII to the Community TSE Regulation.

### **Subsequent occupiers**

14. If there is a change in occupation of the holding, the previous occupier must ensure that the subsequent occupier is made aware of the existence and contents of any notice served under this Schedule, and failure to do so is an offence.

### **Introduction of animals on to a holding**

15. Any person who introduces an animal on to a holding in contravention of point 4 of Annex VII to the Community TSE Regulation is guilty of an offence.

### **Use of ovine germinal products**

16. Any person who uses ovine germinal products in contravention of point 5 of Annex VII to the Community TSE Regulation is guilty of an offence.

### **Movement of animals from a holding**

17. Any person who moves an animal from a holding in contravention of point 7 of Annex VII to the Community TSE Regulation is guilty of an offence.

### **Time of movement restrictions**

18. For the purposes of point 8 of Annex VII to the Community TSE Regulation the relevant dates must be established by the National Assembly giving written notification of those dates to the occupier of the holding.

## **Marw tra o dan gyfyngiad**

19. Os bydd unrhyw anifail 18 mis oed neu fwy yn marw neu'n cael ei ladd tra bo o dan gyfyngiad am unrhyw reswm o dan yr Atodlen hon neu Atodiad VII i Reoliad TSE y Gymuned, mae'n rhaid i'r perchennog hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith, a chadw'r corff ar y safle hyd nes y caiff gyfarwyddiadau ysgrifenedig gan y Cynulliad Cenedlaethol i'w symud neu i'w waredu, ac mae'n drosedd peidio â chydymffurfio gyda'r paragraff hwn neu beidio â chydymffurfio gyda chyfarwyddyd o dan y paragraff hwn.

## **Rhoi epil defaid a geifr sydd wedi eu heffeithio gan BSE ar y farchnad**

20. Mae unrhyw berson sy'n rhoi unrhyw ddefaid neu eifr sydd wedi eu heffeithio gan BSE ar y farchnad yn groes i Erthygl 15(2) o Reoliad TSE y Gymuned a Phennod B o Atodiad VIII i'r Rheoliad hwnnw yn euog o drosedd.

## **Hysbysiad tra bo'r daliad dan gyfyngiad**

21.-(1) At ddibenion pwynt 8(d) o Atodiad VII i Reoliad TSE y Gymuned, am y cyfnod y mae'r daliad o dan gyfyngiad yn unol â phwynt 8 o'r Atodiad hwnnw, os yw'r perchennog yn bwriadu traddodi dafad 18 mis oed neu fwy i gael ei chigydda i'w bwyta gan bobl, mae'n rhaid iddo hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o leiaf bedair wythnos cyn ei thraddodi.

(2) Ni chaiff draddodi dafad 18 mis oed neu fwy i'w lladd neu ei chigydda i'w bwyta gan bobl ac eithrio o dan gyfarwyddyd ysgrifenedig o'r Cynulliad Cenedlaethol, ac mae'n rhaid gwneud hynny yn unol â'r cyfarwyddyd hwnnw.

(3) Mae peidio â chydymffurfio â'r paragraff hwn yn drosedd.

## **Rhanddirymiaidau**

22.-(1) Ni chaiff y Cynulliad Cenedlaethol weithredu'r dewis a ganiatawyd o dan bwynt 7(c) o Atodiad VII i Reoliad TSE y Gymuned.

(2) Gall meddiannydd daliad wneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn iddo weithredu un o'r dewisiadau a ganiatawyd o dan bwynt 9 o'r Atodiad hwnnw neu'r ddau.

(3) Mae'n rhaid i gais o dan y paragraff hwn fod yn ysgrifenedig ac mae'n rhaid nodi'r rhesymau am y cais yn llawn.

(4) Mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi ei benderfyniad yn ysgrifenedig i'r ymgeisydd, ac mae'n rhaid nodi ei fod naill ai'n-

- (a) caniatáu'r cais;
- (b) caniatáu'r cais yn rhannol; neu'n

## **Death while under restriction**

19. If any animal aged 18 months or over dies or is killed while it is under restriction for any reason under this Schedule or Annex VII to the Community TSE Regulation, the owner must immediately notify the National Assembly, and retain the body on the premises until he or she is directed in writing to move or dispose of it by the National Assembly, and it is an offence not to comply with this paragraph or to fail to comply with a direction under it.

## **Placing on the market of progeny of BSE affected sheep and goats**

20. Any person who places on the market any BSE affected sheep or goat in contravention of Article 15(2) of the Community TSE Regulation and Chapter B of Annex VIII to that Regulation is guilty of an offence.

## **Notification while the holding is under restriction**

21.-(1) For the purposes of point 8(d) of Annex VII to the Community TSE Regulation, for the period that the holding is under restriction in accordance with point 8 of that Annex, if the owner intends to consign a sheep aged 18 months or more for slaughter for human consumption, he or she must notify the National Assembly at least four weeks before consignment.

(2) He or she must not consign a sheep aged 18 months or more for killing or slaughter for human consumption except under a written direction from the National Assembly, and must do so in accordance with that direction.

(3) Failure to comply with this paragraph is an offence.

## **Derogations**

22.-(1) The National Assembly must not exercise the option permitted under point 7(c) of Annex VII to the Community TSE Regulation.

(2) The occupier of a holding may apply to the National Assembly asking it to exercise one or both of the options permitted under point 9 of that Annex.

(3) An application under this paragraph must be in writing and must set out in full the reasons for the application.

(4) The National Assembly must give the applicant its decision in writing, which must state that it either-

- (a) consents to the application;
- (b) consents in part to the application; or

(c) gwrthod y cais.

(5) Oni bai bod y Cynulliad Cenedlaethol yn caniatáu'r cais yn llawn, mae'r weithdrefn apelio yn rheoliad 14 yn gymwys.

(c) refuses the application.

(5) Unless the National Assembly consents to the application in full, the appeals procedure in regulation 14 applies.



## ATODLEN 5

## SCHEDULE 5

Rheoliad 8

Regulation 8

Bwydydd anifeiliaid

Feedingstuffs

CYNNWYS

CONTENTS

### RHAN 1

### PART 1

Cyfngiadau ar fwydo protein i anifeiliaid

Restrictions on feeding proteins to animals

1. Gwahardd bwydo protein anifeiliaid i anifeiliaid cnoi cil
2. Gwahardd bwydo protein anifeiliaid i anifeiliaid nad ydynt yn cnoi cil
3. Eithriadau
4. Gwahardd a chyfyngu symud anifeiliaid
5. Cigydda anifeiliaid
6. Iawndal
7. Cigydda neu werthu i'w fwyta gan bobl

1. Prohibition on feeding animal protein to ruminants
2. Prohibition on feeding animal protein to non-ruminants
3. Exceptions
4. Movement prohibitions and restrictions of animals
5. Slaughter of animals
6. Compensation
7. Slaughter or sale for human consumption

### RHAN 2

### PART 2

Cynhyrchu protein a bwydydd anifeiliaid

Production of protein and feedingstuffs

8. Blawd pysgod ar gyfer ei fwydo i anifeiliaid sy'n cael eu ffermio ac nad ydynt yn cnoi cil
